

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd

Dyddiad:

Dydd Mercher, 9 Gorffennaf 2014

Amser:

09.15

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Marc Wyn Jones

Clerc y Pwyllgor

029 2089 8505

PwyllgorPPI@cymru.gov.uk

Agenda

09.15 – 09.30 – Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

2 Y Bil Addysg Uwch (Cymru) – Sesiwn dystiolaeth 7 (09.30 – 10.30)

(Tudalennau 1 – 42)

CYPE(4)-19-14 – Papur 1

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Huw Lewis AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Neil Surman, Pennaeth Yr Is-Adran Uwch

Grace Martins, Cyfreithiwr

3 Papurau i'w nodi

Llythyr gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn dilyn y cyfarfod ar 5 Mehefin 2014

(Tudalennau 43 – 49)

CYPE(4)-19-14 – Papur i'w nodi 2

Llythyr gan y Gweinidog dros Addysg a sgiliau i'r Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

(Tudalennau 50 – 57)

CYPE(4)-19-20 – Papur i'w nodi 3

Llythyr gan y Gweinidog dros Addysg a sgiliau i'r Cadeirydd y Pwyllgor Materion

Cyfansoddiadol a deddfwriaethol (Tudalennau 58 – 74)

CYPE(4)-19-20 – Papur i'w nodi 4

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Eitem 5

5 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor (10.30 – 11.00) (Tudalennau 75 – 79)

CYPE(4)-19-14 – Papur preifat 5

Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Huw Lewis AC / AM
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LF/HL/0633/14

Ann Jones AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

02 Gorffennaf 2014

Annwyl Ann,

Y PWYLLGOR PLANT, POBL IFANC AC ADDYSG – GWAITH CRAFFU CYFNOD 1 AR Y BIL ADDYSG UWCH (CYMRU)

Ar ôl mynychu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 5 Mehefin, rwyf wedi gwrando'n astud ar y dystiolaeth ychwanegol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan wahanol randdeiliaid o bob cwr o Gymru. Cyn i mi ymddangos gerbron y Pwyllgor am yr eildro ar 9 Gorffennaf, hoffwn gymryd y cyfle hwn i gyflwyno rhagor o dystiolaeth ysgrifenedig ynghylch rhai o'r materion sydd wedi codi wrth graffu ar y Bil hyd yma.

Yr angen am ddeddfwriaeth

Nodaf fod nifer o randdeiliaid, yn cynnwys CCAUC ac Addysg Uwch Cymru, wedi trafod yr angen am Fil ar hyn o bryd. Maent hefyd wedi cyfeirio at Adolygiad Diamond o gyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr fel rhan o'r trafodaethau hyn. Hoffwn bwysleisio unwaith eto nad yw'r Bil Addysg Uwch (Cymru) yn ddibynol ar Adolygiad Diamond a bydd yn ceisio mynd i'r afael â materion dybryd a phwysig sy'n effeithio ar fyfyrwyr ac addysg uwch yng Nghymru yn fwy cyffredinol.

Yn fwyaf arbennig, bydd yn ceisio disodli'r fframwaith rheoleiddio presennol ar gyfer addysg uwch sy'n gwbl seiliedig ar weithredu a gorfodi telerau ac amodau cyllid rheolaidd CCAUC. Oherwydd y gostyngiadau mawr yn y cyllid CCAUC sy'n mynd i sefydliadau AU yn uniongyrchol, nid yw'r fframwaith rheoleiddio hwn yn addas i'r diben mwyach. Ni all CCAUC osod telerau ac amodau ar y symiau mawr o gymorth gyda ffioedd dysgu myfyrwyr sy'n cael eu talu i sefydliadau drwy law myfyrwyr, ac mae'n bosibl bod lefelau'r cymorth rheolaidd sy'n weddill yn rhy fach i gyfiawnhau telerau ac amodau ystyrion. Mae'n amheus, felly, a all CCAUC, yn awr ac yn y dyfodol agos, gyflawni'n effeithiol ei gyfrifoldebau statudol dros reoleiddio ffioedd, sicrhau ansawdd a rheoleiddio AU yng Nghymru yn ariannol, drwy barhau i ddibynnu ar delerau ac amodau cyllid. Credaf ei bod yn hollbwysig i'r Cyngor Cyllido gael pwerau priodol i oruchwylio materion o'r fath o ystyried bod y buddsoddiad cyhoeddus yn y sector AU yng Nghymru yn parhau i fod yn sylweddol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff

Tudalen 34 o 34

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Huw.Lewis@wales.gsi.gov.uk

Printed on 100% recycled paper

Am y rhesymau hyn, rwy'n bendant bod angen y Bil hwn yn nawr. Bydd yn ceisio cyflwyno fframwaith rheoleiddio cadarn ond cymesur nad yw'n ddibynnol ar osod telerau ac amodau cyllid rheolaidd CCAUC. Mae'n bwysig chwalu unrhyw gamsyniad bod y Bil yn cyflwyno system reoleiddio newydd sy'n rhoi swyddogaethau newydd a llym sylweddol i CCAUC. Mae'r holl waith, fwy neu lai, y bydd CCAUC yn ei wneud o ganlyniad i'r Bil hwn eisoes yn digwydd o dan y fframwaith statudol cyfredol.

Annibyniaeth sefydliadau a rhyddid academiaidd

Rwyf wedi nodi hefyd fod Addysg Uwch Cymru wedi crybwyll materion yn ymwneud ag annibyniaeth sefydliadau a rhyddid academiaidd. Hoffwn bwysleisio fy mod i'n gwerthfawrogi ac yn parchu'r ddwy egwyddor bwysig hyn ac wedi ceisio eu diogelu drwy gyflwyno'r Bil hwn. Gadewch i ni fod yn glir, ni fydd y pwerau a'r cyfyngiadau ariannu cyfredol yn Neddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn cael eu dirymu. Bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau o ran sefydliadau, cyrsiau ac aelodau staff unigol wrth roi cyllid uniongyrchol i CCAUC. Yn ogystal, mae adran 6(5) y Bil yn cynnwys mesurau sy'n diogelu mwy ar ryddid academiaidd ac annibyniaeth sefydliadau fel rhan o'r fframwaith rheoleiddio newydd. Wrth bennu materion sy'n rhaid eu cynnwys mewn cynlluniau ffioedd a mynediad, hwyrach na fydd Gweinidogion Cymru yn mynnu bod cynllun yn cynnwys darpariaeth sy'n cyfeirio at gyrsiau penodol neu'r modd y cânt eu haddysgu, eu goruchwyllo neu eu hasesu neu ddarpariaeth sy'n ymwneud â'r meini prawf ar gyfer derbyn myfyrwyr. Cyfrifoldeb y sefydliadau fydd hyn o hyd.

Rheolaeth reoleiddiol a chyllid cyhoeddus

Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig a llafar roedd Addysg Uwch Cymru'n cwestiynu'r berthynas rhwng rheolaeth reoleiddiol o dan y Bil a chyllid cyhoeddus. Un o brif sbardunau'r Bil yw galluogi CCAUC i barhau i gyflawni ei ddyletswyddau statudol cyfredol, er ar sail statudol ddiwygiedig. Cydnabuwyd hyn gan CCAUC yn ei sesiwn dystiolaeth, lle nodwyd bod y berthynas weithredol rhwng y Cyngor Cyllido a sefydliadau yn annhebygol o newid o ganlyniad i'r Bil. Mae elfennau allweddol o'r Bil yn ymwneud â therfynau ffioedd a threfniadau mynediad, asesu ansawdd a rheolaeth ariannol sefydliadau. Mae'r holl elfennau hyn yn gysylltiedig â chyllid cyhoeddus, o ran eu bod yn ymwneud â darparu cyrsiau sy'n cael eu hastudio gan fyfyrwyr sy'n cael eu hariannu gan gyllid cyhoeddus.

Is-ddeddfwriaeth

Mae Addysg Uwch Cymru wedi disgrifio'r Bil hwn fel Bil 'fframwaith' ac wedi mynegi pryderon am lefel y manylder sydd wedi'i adael i is-ddeddfwriaeth. I'r perwyl hwn, roeddwn yn falch o glywed sylwadau cadarnhaol Aelodau'r Pwyllgor ac eraill, a oedd yn cydnabod bod cryn dipyn o fanylion ar wyneb y Bil.

Hoffwn ailadrodd bod y materion sy'n cael eu cwmpasu gan is-ddeddfwriaeth, ar y cyfan, yn ymdrin â manylion technegol ac ymarferol y bydd angen eu diweddarau o bryd i'w gilydd. Nid wyf yn derbyn nad oes modd deall cwmpas a goblygiadau llawn y Bil o ganlyniad i nifer y pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae bwriad a chwmpas y Bil yn glir, gyda mwyafrif llethol y manylion i'w gweld ar wyneb y Bil. Yn gryno, nid Bil fframwaith yw hwn. Hefyd, i gynorthwyo ymhellach gyda'r broses graffu, rwyf wedi cyhoeddi datganiad o fwriad polisi ochr yn ochr â'r Bil, sy'n rhoi rhagor o fanylion am ein cynlluniau ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

Ar bwynt cysylltiedig, nodaf fod Addysg Uwch Cymru ac NUS Cymru wedi crybwyll y pwerau penodol i wneud rheoliadau a allai ddiwygio'r Bil neu ddarnau eraill o ddeddfwriaeth sylfaenol (y 'pwerau Harri VIII' honedig). Mae'r pwerau hyn i'w gweld yn adrannau 13(3), 37(3) a 55(3) o'r Bil. Mewn perthynas â'r ddau b er cyntaf, sydd wedi'u cyfyngu i ddiwygio

darpariaethau'r Bil hwn, hoffwn ei gwneud hi'n glir mai eu nod yw diogelu sefydliadau ymhellach. Er enghraifft, pe bai CCAUC yn cael pwerau cosbi newydd o dan adran 12, mae'n bwysig bod Gweinidogion Cymru'n gallu cymhwyso'r un diogelwch gweithdrefnol ag sy'n berthnasol i gosbau eraill CCAUC o dan y Bil. Byddai hyn yn cynnwys cymhwyso'r weithdrefn rybuddio, cyflwyno hysbysiad ac adolygu yn adrannau 40 i 43. Yn yr un modd, mae'n bwysig bod modd cymhwyso'r un diogelwch gweithdrefnol i hysbysiad o dan adran 37(1).

Nid rhoi pŵer dilyffethair i Weinidogion Cymru newid y llyfr statud yw nod y pwerau hyn, fel sydd wedi cael ei awgrymu. Yn hytrach, byddant yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud newidiadau cymharol fach i ddarpariaethau cysylltiedig y Bil hwn a fyddai'n diogelu buddiannau sefydliadau yn bennaf.

Ymhellach, yn groes i'r hyn a awgrymwyd, nid yw'r pŵer yn adran 55(3) yn anarferol nac yn ddadleuol mewn unrhyw ffordd. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ganlyniadol a thrawsnewidiol sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu darnau o ddeddfwriaeth sylfaenol. Darpariaeth 'dacluso' ydyw sydd heb unrhyw sylwedd ohono'i hun ac sy'n bodoli'n unig i ymdrin â'r hyn y gellir ei ddisgrifio'n fras fel 'darpariaeth ganlyniadol'. Unwaith eto, ni fydd Gweinidogion Cymru'n gallu defnyddio'r pŵer hwn i wneud unrhyw newidiadau o sylwedd. Ei nod yn syml yw galluogi'r fframwaith rheoleiddio newydd sy'n cael ei sefydlu o dan y Bil i weithredu'n effeithiol a sicrhau cyfnod pontio esmwyth o'r fframwaith presennol i'r un newydd.

Cynlluniau Ffioedd a Mynediad

Mae'r dystiolaeth i'r pwyllgor hyd yma wedi codi nifer o faterion ynghylch y bwriad i weithredu cynlluniau ffioedd a mynediad. Yn gyntaf, bydd y cynlluniau newydd yn debyg i'r cynlluniau ffioedd sy'n ofynnol o dan y drefn gyfredol i raddau helaeth. Wrth gwrs, bydd rhai newidiadau o ran cwrpas cymhwyso'r cynlluniau newydd, gorfodi'r ymrwymadau a wneir gan sefydliadau yn eu cynlluniau cymeradwy yn ogystal â ffocws cynyddol ar werthuso canlyniadau'r cynlluniau. Rwyf wedi amlinellu'r newidiadau allweddol isod.

O dan y system newydd, mae'n hollol bosibl i sefydliadau neu ddarparwyr newydd wneud cais i CCAUC gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad. Mae'n bosibl nad yw'r darparwyr hyn wedi cael unrhyw berthynas flaenorol â CCAUC. Mae hyn yn esgor ar gyfleoedd a heriau, gan gynnwys y posibilrwydd o gael lefelau ffioedd dysgu mwy amrywiol ledled Cymru. Mae'r Bil yn cydnabod y posibilrwydd hwn o gael amrywiadau, drwy alluogi rheoliadau, o dan adran 7(3), er mwyn darparu i faterion gael eu hystyried gan CCAUC wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo neu wrthod cynllun ffioedd a mynediad.

Bu dyfalu am gydbwysedd ffocws CCAUC ar ganlyniadau cynlluniau cymeradwy yn erbyn cyflawni gweithgareddau. Hoffwn egluro ymhellach y bwriad polisi wrth wraidd y dull arfaethedig o weithredu cynlluniau ffioedd a mynediad. Mae Adran 15 yn rhoi dyletswydd ar CCAUC i fonitro'r gwaith o gyflawni ymrwymadau cynlluniau ffioedd a mynediad ac i werthuso effeithiolrwydd cynlluniau a gymeradwywyd yn unigol ac yn gyffredinol. Mae'r swyddogaethau hyn yn ychwanegu at y trefniadau o dan y system gyfredol. Fy mwriad yw i CCAUC fonitro'r gwaith o gyflawni'r gweithgareddau y mae sefydliadau yn ymrwymo iddynt yn eu cynlluniau cymeradwy, yn ogystal â rhoi rhagor o sylw i ba mor effeithiol yw cynlluniau ffioedd a mynediad o ran sicrhau gwelliannau mewn mynediad teg i addysg uwch a hybu addysg uwch ledled Cymru.

Mae Adran 51 yn rhoi swyddogaeth i CCAUC adnabod arfer da sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal o ran cael mynediad i addysg uwch a hybu addysg uwch. Mae'r swyddogaeth hon

yn debyg i swyddogaeth bresennol CCAUC o dan adran 40A o Ddeddf Addysg Uwch 2004. Fy mwriad yw i CCAUC ddefnyddio canfyddiadau ei waith o werthuso effeithiolrwydd cynlluniau ffioedd a mynediad i helpu i baratoi gwybodaeth a chyngor ar arfer da. Bydd rhaid i sefydliadau rheoleiddiedig ystyried unrhyw wybodaeth a chyngor a roddir gan CCAUC wrth baratoi cynlluniau ffioedd a mynediad newydd.

Wrth reswm, bydd angen peth amser ar CCAUC i werthuso effeithiolrwydd cynlluniau ffioedd a mynediad ac mae'r dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor wedi pwysleisio'r pwynt hwn yn gywir. Er mwyn gwella mynediad at addysg uwch, mae angen gweithredu'n gyson yn y tymor hir, a hynny yn seiliedig ar arfer gorau. Bydd hyn yn dod yn elfen gynyddol bwysig o rôl CCAUC yn y dyfodol yn ôl pob tebyg a bydd yn helpu i wella effeithiolrwydd cynlluniau ffioedd a mynediad dros amser.

Mae Adran 4(2) yn darparu bod modd rhagnodi mewn rheoliadau y cyfnod hwyaf y gall cynlluniau ffioedd a mynediad bara. O dan y system gyfredol, ni all cynlluniau bara mwy na dwy flynedd er, hyd yma, mae CCAUC wedi gofyn i sefydliadau gyflwyno cynlluniau newydd bob blwyddyn. Fy mwriad yw ymestyn y cyfnod hwn i bum mlynedd yn y tymor hir pan fydd pawb yn gyfarwydd â gweithredu'r system newydd a sefydliadau a CCAUC yn gyfarwydd â monitro a gwerthuso'r cynlluniau. Nid oes gwrthdaro rhwng adnewyddu cynlluniau yn flynyddol a gwerthusiad hirdymor CCAUC o effeithiolrwydd cynlluniau.

Pwerau yn ymwneud â chanllawiau

Mae Addysg Uwch Cymru wedi mynegi pryderon bod y Bil yn gwneud darpariaeth i roi dyletswydd ar sefydliadau i ystyried canllawiau (yn cynnwys gwybodaeth a chyngor) sy'n cael eu cyhoeddi neu eu rhoi gan CCAUC. Rwy'n mawr obeithio nad yw Addysg Uwch Cymru yn awgrymu y dylai sefydliadau gael rhwydd hynt i anwybyddu canllawiau a roddir iddynt gan gorff rheoleiddio. Mae hwn yn gynnig annerbyniol. Mae'n anodd deall gwrthwynebiad Addysg Uwch Cymru, yn enwedig gan mai'r cyfan y mae'r gofyniad yn ei olygu yw bod rhaid i sefydliadau dalu sylw i ganllawiau perthnasol. Nid yw'n gofyn am gydymffurfiaeth â'r canllawiau. Os oes rheswm da dros beidio â dilyn y canllawiau, gall sefydliadau ddewis peidio â gwneud hynny.

Rwy'n gadarn o'r farn ei bod hi'n gwbl briodol rhoi dyletswydd glir ar sefydliadau i ystyried canllawiau perthnasol wrth wneud penderfyniadau yngl n â pha gamau i'w cymryd er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd yn ymwneud â chydymffurfio â therfynau ffioedd ac ad-dalu, penderfyniadau am wella neu gynnal ansawdd yr addysgu maent yn ei chynnig, penderfyniadau mewn perthynas â threfnu a rheoli materion ariannol neu arfer gorau o ran cyfle cyfartal a hybu AU.

Mae'n beth cyffredin iawn i ddeddfwriaeth osod gofyniad ar y sawl sy'n derbyn canllawiau i dalu sylw iddynt wrth gyflawni ei swyddogaethau. Er y bydd cymhwyso egwyddorion cyffredin cyfraith weinyddol yn arwain at ddyletswydd i dalu sylw i ganllawiau, ni chredaf y byddai'n briodol yn yr achos hwn i'r fath ddyletswydd fod yn ddealedig oherwydd efallai na fydd sefydliadau'n destun adolygiad barnwrol ym mhob achos. Bydd hynny'n dibynnu ar ffeithiau'r achos a natur y sefydliad. Mae natur sefydliadau yn debygol o amrywio mwy yn y dyfodol hefyd wrth i sefydliadau newydd ymuno â'r sector. Mae gosod dyletswydd i roi sylw i ganllawiau (yn cynnwys gwybodaeth a chyngor) yn gwneud y disgwyliad cyfreithiol yn ddiamwys, sef os ydych chi'n derbyn canllawiau, rhaid i chi dalu sylw iddynt wrth gyflawni'ch swyddogaethau.

Rhaid i mi nodi hefyd lle mae gan CCAUC bwrdd o dan y Bil i gyhoeddi canllawiau ar gyfer sefydliadau, mae dyletswydd ar CCAUC hefyd i ymgynghori â sefydliadau cyn cyhoeddi'r canllawiau hynny.

Meini prawf cymhwysedd ar gyfer sefydliadau rheoleiddiedig

Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, nododd Addysg Uwch Cymru nad yw'r gofynion cymhwysedd ar gyfer pennu pa ddarparwyr all wneud cais i CCAUC gymeradwyo'u cynllun ffioedd a mynediad yn glir. Nid wyf yn derbyn y pwynt hwn. Mae Adran 2 y Bil yn nodi tri gofyniad clir mewn perthynas â chymhwysedd.

- 1) rhaid i ymgeisydd fod yn sefydliad yng Nghymru;
- 2) rhaid i'r ymgeisydd fod yn sefydliad sy'n darparu addysg uwch; a
- 3) rhaid iddo fod yn elusen.

At y dibenion hyn, mae adran 54(3) yn cadarnhau mai sefydliad yng Nghymru yw sefydliad y mae ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

Nodaf hefyd fod rhywfaint o ddryswch am gwmpas a diben adran 3 y Bil. Nid yw'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddynodi darparwyr ychwanegol fel sefydliadau rheoleiddiedig, ac nid yw'n ymwneud yn gyfan gwbl â darparwyr sy'n cynnig cyrsiau addysg uwch lefel is chwaith. Yn hytrach, mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi darparwyr sy'n darparu addysg uwch yng Nghymru ac sy'n elusennau yn 'sefydliadau' at ddibenion adran 2. Ni all darparwyr o'r fath gael eu dosbarthu fel 'sefydliadau' at y dibenion hyn fel rheol. I fod yn glir, bydd rhaid i'r darparwyr hyn fodloni gofynion cymhwysedd eraill a gwneud cais am gymeradwyaeth i'w cynllun ffioedd a mynediad o dan adran 2, waeth beth yw eu dynodiad o dan adran 3. Nid yw dynodiad o dan adran 3 yn rhoi statws rheoleiddiedig yn awtomatig.

Y system reoleiddio

Holodd Addysg Uwch Cymru nifer o gwestiynau am gwmpas y system reoleiddio y mae'r Bil yn darparu ar ei chyfer. Yn arbennig, mae wedi cyfeirio at gyrsiau rhan-amser, dynodiadau awtomatig a fesul achos, ac asesu ansawdd. Bydd y Pwyllgor yn nodi fy mod eisoes wedi cyflwyno tystiolaeth bellach ar rai o'r materion hyn yn fy llythyr dyddiedig 27 Mehefin.

Fodd bynnag, hoffwn wrthbrofi'r awgrym bod y Bil yn gadael bylchau pwysig yn y fframwaith rheoleiddio cyffredinol ar gyfer addysg uwch yng Nghymru. Mae'n wir fod y Bil yn dibynnu ar y ffaith bod prifysgolion a darparwyr eraill yn dod yn sefydliadau rheoleiddiedig, ond nid yw hyn yn ddim byd newydd. Mae'r system gyfredol yn dibynnu ar brifysgolion yn derbyn cyllid CCAUC, yn yr un modd ag y mae'r system gyfredol yn dibynnu ar y ffaith bod sefydliadau eisiau mynediad i elfennau mwyaf hael y pecyn cymorth i fyfyrwyr ar gyfer eu myfyrwyr (dynodi cyrsiau'n awtomatig). Mae ymuno â sector AU rheoleiddiedig Cymru wedi bod yn wirfoddol erioed, ac felly y bydd yn parhau.

Yn ogystal, nid wyf yn derbyn y ddadl nad yw'r Bil yn cwmpasu'r system reoleiddio gyfan. Fel y nodwyd uchod, nod y ddeddfwriaeth yw disodli elfennau o'r fframwaith statudol presennol ar gyfer addysg uwch nad ydynt yn addas i'r diben mwyach. Nid wyf wedi ceisio newid elfennau eraill o'r fframwaith statudol sy'n gweithio'n effeithiol o hyd. Er enghraifft, bydd y broses o ddynodi cyrsiau'n awtomatig a fesul achos yn parhau i gael ei chyflawni o dan y set flynyddol o reoliadau cymorth i fyfyrwyr a wneir o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Er yn gymhleth, nid yw hwn yn ddim byd newydd felly ni allaf weld rheswm pan

na ddylai'r sector AU yng Nghymru ddeall y drefn.

Ar bwynt cysylltiedig, yn ôl Addysg Uwch Cymru, heb ddeddfwriaeth bellach, ni fydd yna gorff cyhoeddus sydd â dyletswydd i sicrhau ansawdd darparwyr nad ydynt yn cael eu rheoleiddio (h.y. darparwyr nad ydynt yn destun cynllun ffioedd a mynediad cymeradwy). Mae hynny'n wir ond, unwaith eto, nid yw hyn yn ddim byd newydd. Mae dyletswydd gyfredol CCAUC o dan adran 70 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 i asesu ansawdd yn ymwneud â darparwyr 'a ariennir' neu reoleiddiedig yn unig. Mae hyn yn cyfateb i'w ddyletswydd newydd sydd wedi'i chyfyngu i addysg sy'n cael ei darparu gan neu ar ran sefydliadau rheoleiddiedig (y rheini sydd â chynllun ffioedd a mynediad cymeradwy ar waith). Yn syml, mae ffurf wahanol y ddwy ddyletswydd asesu ansawdd yn adlewyrchu'r newidiadau yn natur y system reoleiddio wirfoddol. Nid yw'r sefyllfa wedi newid.

Y Comisiwn Elusennau/Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae Addysg Uwch Cymru wedi mynegi pryderon am effaith y Bil ar statws elusennol sefydliadau. I fod yn glir, er y bydd sail statudol newydd i'r system gyllido addysg uwch, bydd y system yn gweithredu'n debyg iawn i'r un bresennol lle mae CCAUC yn cynnal gweithgareddau tebyg ond drwy gyfrwng telerau ac amodau cyllido. Mae fy swyddogion wedi ymgynghori â'r Comisiwn Elusennau, ac rwyf ar ddeall bod y Comisiwn wedi cyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor hefyd. Nid yw fy marn ar hyn wedi newid: ni fydd y Bil yn effeithio ar allu sefydliadau i gydymffurfio â chyfraith elusennau. Ymhellach, mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, mae'r Comisiwn Elusennau wedi nodi nad oes ganddo unrhyw bryderon am fwiadau polisi'r Bil, na'r fframwaith rheoleiddio newydd arfaethedig, o ran cyfraith elusennau, statws elusennol SAU y mae eu cyrsiau'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, na rheoleiddio elusennau.

Er mwyn chwalu'r amheuon hyn unwaith ac am byth, bydd fy swyddogion yn parhau i ymgysylltu â'r Comisiwn Elusennau er mwyn achub y blaen ar unrhyw faterion a allai godi, er enghraifft, yn ystod y camau gwneud gwelliannau.

O ran dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol, credaf fod y Bil yn ymateb cymesur ac ystyriol i'r angen i sicrhau bod y system gyllido ar gyfer addysg uwch yng Nghymru yn parhau i ennyn hyder y cyhoedd. Nid wyf yn gweld unrhyw angen i ymgysylltu â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Bwriad y Bil yw taro'r cydbwysedd priodol rhwng sicrhau annibyniaeth sefydliadau a diogelu'r swm sylweddol o arian cyhoeddus sy'n cael ei fuddsoddi yn y sector addysg uwch a sicrhau bod myfyrwyr yn cael addysg o'r radd flaenaf. Fel yr eglurais wrth y Pwyllgor, mae'r sefyllfa o'i chymharu â sefydliadau AB yn wahanol iawn. Mae sefydliadau AB yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, a'r sector AU yn cael ei ariannu drwy CCAUC (sy'n gwneud sefydliadau addysg uwch yn annibynnol ar y llywodraeth), ffioedd dysgu myfyrwyr ac incwm arall.

Hawliau mynediad ac edrych ar ddogfennau

Mae Addysg Uwch Cymru, yn ei dystiolaeth ysgrifenedig a llafar, yn disgrifio'r pwerau mynediad ac edrych ar ddogfennau yn adrannau 22 a 35 y Bil fel rhai "newydd" a diangen. Cyfeiria hefyd at gyngor cyfreithiol sy'n disgrifio'r pwerau fel rhai llym. Nid wyf yn derbyn y dehongliad hwn.

Diben y Bil yw galluogi CCAUC i barhau â'i waith presennol, sef asesu ansawdd addysg a monitro sut mae sefydliadau'n cael eu rheoli'n ariannol. Er mwyn i CCAUC allu gwneud hyn, rhaid iddo allu mynd i mewn i'r fangre ac edrych ar ddogfennau fel y gwêl yn dda.

Yn y mwyafrif helaeth o achosion, byddwn yn disgwyl i sefydliadau a CCAUC ddod i drefniant cytûn ond rhaid i'r Bil wneud darpariaethau ar gyfer yr achlysuron hynny, waeth pa mor brin ydynt, pan mae sefydliad yn gwrthod cydweithredu a chaniatáu i CCAUC fynd i mewn i'w fangre neu i edrych ar ddogfennau.

Mae'n bwysig cofio nad yw hawl CCAUC i fynd i mewn i fangre ac i edrych ar ddogfennau yn newydd. Gall CCAUC ddarparu ar gyfer yr hawl i fynd i mewn i fangre sefydliad ac i edrych ar ddogfennau ar hyn o bryd drwy delerau ac amodau cyllido.

Os nad oes cyllid y gellir gosod telerau ac amodau ynghlwm wrtho, mae angen dull arall o sicrhau bod CCAUC yn gallu gwneud ei waith sef asesu ansawdd addysg a monitro sut mae sefydliadau'n cael eu rheoli'n ariannol. Mae hynny'n cynnwys, lle mae angen, cael yr hawl i fynd i mewn i fangre ac edrych ar ddogfennau.

Mae'r Bil yn cyflawni hyn drwy sefydlu fframwaith statudol newydd, ond ni fydd rhyw lawer yn newid o ran gweithredu. Mae adrannau 22 a 35 yn darparu ar gyfer person sydd wedi'i awdurdodi gan CCAUC i fynd i mewn i fangre sefydliad rheoleiddiedig ac edrych ar ddogfennau y daw o hyd iddynt yn y fangre, eu copïo neu eu cymryd. Mae'r adrannau hynny'n disodli'r telerau ac amodau cyllido y gall CCAUC eu pennu ar hyn o bryd. Maent yn rhoi ffordd o sicrhau bod CCAUC yn gallu parhau i fynnu mynd i mewn i fangre ac i edrych ar ddogfennau.

Nid yw'n beth anarferol yn fy marn i i ddeddfwriaeth wneud darpariaeth ar gyfer yr hawl i fynd i mewn i fangre ac edrych ar ddogfennau yn y cyd-destun hwn ac ni chredaf fod y Bil yn llym chwaith. Mae'r pwerau yn y Bil yn gymesur ac yn destun diogelwch digonol gan fod rhaid rhoi rhybudd, ac eithrio o dan rai amgylchiadau cyfyngedig iawn, a rhaid arfer y pwerau ar adegau rhesymol yn unig. Mae Addysg Uwch Cymru yn cyfeirio hefyd at bwerau tebyg, yn ei farn ef, sydd gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Credaf fod cymariaethau o'r fath yn gyfeiliornus gan fod Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn gweithredu mewn cyd-destun tra gwahanol.

Cod rheolaeth ariannol

Er mwyn osgoi amheuaeth, hoffwn gadarnhau nad oes unrhyw bwerau i wneud rheoliadau yn deillio o Ran 4 y Bil. Ni fydd swyddogaethau CCAUC o ran llunio'r cod rheolaeth ariannol arfaethedig, ymgynghori arno, ei gyhoeddi a'i adolygu yn cael eu hategu gan reoliadau. Ar hyn o bryd, mae CCAUC yn datblygu, yn ymgynghori ar ac yn cyhoeddi memorandwm ariannol sy'n berthnasol i sefydliadau a ariennir. O dan y fframwaith rheoleiddio newydd, bydd gofyn i CCAUC ymgynghori â phob sefydliad rheoleiddiedig ar god rheolaeth ariannol drafft a bydd gofyn iddo hefyd roi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wrth gyflwyno'r cod drafft i Weinidogion Cymru er mwyn ei gymeradwyo. Bwriedir i'r Cod gael ei gyhoeddi a dod i rym o ddechrau blwyddyn academaidd 2016/17. Bydd hyn yn rhoi digon o amser i CCAUC lunio'r Cod, ymgynghori arno a chael cymeradwyaeth iddo. Ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/16, bydd CCAUC yn parhau i sicrhau trefniadau rheolaeth ariannol sefydliadau addysg uwch drwy ei femorandwm ariannol cyfredol.

Felly mae'r trefniadau sydd mewn golwg ar gyfer goruchwyllo'r gwaith o reoli materion ariannol sefydliadau rheoleiddiedig yn debyg i'r rhai sydd ar waith ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yn y dyfodol, ni fyddai ei gorfodi yn ddibynnol ar gymhwysio telerau ac amodau cyllido. Mae'n annhebygol y byddai gwrthdaro rhwng y cod arfaethedig ac unrhyw

drefniadau sy'n rhaid eu rhoi ar waith ym marn CCAUC i ymdrin ag unrhyw delerau ac amodau parhaus sy'n ymwneud â chyllid a roddwyd o dan adran 65 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. CCAUC fydd i benderfynu hynny, mewn ymgynghoriad â'r sector.

Yn ogystal, er na allaf ragweld amgylchiadau lle na fyddai sefydliadau'n gallu rhoi sicrwydd i drydydd partion y mae ganddynt drefniadau contract â nhw o ganlyniad i gydymffurfio â'r Cod newydd, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion edrych yn fanylach ar y mater hwn gydag Addysg Uwch Cymru er mwyn sicrhau ein bod yn deal eu pryderon yn llawn.

Materion trawsffiniol

Mynegodd Addysg Uwch Cymru bryderon am ddarpariaethau'r Bil sy'n cyfyngu ar swyddogaethau CCAUC mewn perthynas â therfynau ffioedd ac asesu ansawdd i gyrsiau sy'n cael eu darparu gan sefydliadau Cymreig yng Nghymru. Fel y nodwyd yn fy nhystiolaeth flaenorol i'r Pwyllgor, nid ydym wedi newid y sefyllfa o ran cymhwysedd deddfwriaethol yn y meysydd hyn.

Fodd bynnag, fel y gwyddoch, mae fy swyddogion wrthi'n trafod y mater hwn gyda swyddogion yn yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a Swyddfa Cymru. Nod y trafodaethau hyn yw cyflwyno Gorchymyn o dan adran 150 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Byddai'r Gorchymyn hwn yn ceisio ymestyn swyddogaethau CCAUC mewn perthynas â chysiau sy'n cael eu darparu yn Lloegr gan sefydliadau i Gymru, gan felly datrys y pryderon a godwyd gan Addysg Uwch Cymru. Cyfeirir at y Gorchymyn hwn yn y Memorandwm Esboniadol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Bil ac yn fy nhystiolaeth i'r Cynulliad drwyddi draw hyd yma.

Trefniadau trosiannol

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn hefyd i roi rhagor o fanylion am y trefniadau trosiannol a fydd ar waith dan y Bil hwn. O'i basio, ni fydd y Bil yn cael ei weithredu'n llawn hyd nes blwyddyn academaidd 2016/17. Bydd hyn yn rhoi cyfle i sefydliadau a CCAUC baratoi'n llawn ar gyfer cyflwyno'r fframwaith rheoleiddio newydd.

Fodd bynnag, rwy'n cynnig ambell drefniant trosiannol ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/16. Prif nod y trefniadau hyn yw diogelu myfyrwyr a fydd yn astudio cyrsiau mewn sefydliadau yng Nghymru yn ystod y flwyddyn drosiannol hon. Bydd gofyn i sefydliadau sy'n ymrwymo i derfynau ffioedd ar gyfer y flwyddyn academaidd hon (drwy gynlluniau ffioedd a gymeradwywyd o dan ddeddfwriaeth gyfredol) gydymffurfio â'r terfynau hynny. Os na fyddant yn cydymffurfio, bydd CCAUC yn gallu cymryd camau i sicrhau cydymffurfiaeth. Credaf fod hyn yn gwbl briodol.

Yn yr un modd, bydd y trefniadau trosiannol yn galluogi CCAUC i barhau i asesu ansawdd yr addysg sy'n cael ei darparu gan neu ar ran sefydliadau yng Nghymru yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16. Os yw CCAUC o'r farn nad yw ansawdd yr addysg mewn sefydliad yng Nghymru yn foddhaol, neu'n debygol o ddod yn anfoddhaol, yn ystod y flwyddyn academaidd hon, gall gymryd camau i ddatrys y broblem. Unwaith eto, nid yw hyn yn ddadleuol yn fy marn i.

Yn ystod y flwyddyn drosiannol hon, rwy'n disgwyl i CCAUC lunio'r cod rheolaeth ariannol cyntaf ac ymgynghori arno. Ni chaiff ei gyflwyno hyd nes y bydd y Bil yn cael ei weithredu'n llawn ym mlwyddyn academaidd 2016/17.

Yn olaf, hoffwn sicrhau'r Pwyllgor fy mod yn ymwybodol o bwysigrwydd sicrhau bod y newid o'r fframwaith statudol presennol i'r un sydd mewn golwg yn y Bil yn mynd yn ei flaen yn hwylus a byddaf yn sicrhau bod y trefniadau angenrheidiol ar waith ar yr adeg briodol.

Rwy'n gobeithio y bydd y wybodaeth ychwanegol hon yn cynorthwyo'r Pwyllgor wrth iddo graffu ymhellach ar y Bil ac edrychaf ymlaen at gyflwyno tystiolaeth bellach yn ystod fy ail ymddangosiad ar 9 Gorffennaf.

Yn gywir

A handwritten signature in cursive script, appearing to read 'Huw Lewis'.

Huw Lewis AC / AM

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills

Huw Lewis AC / AM
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref LF/HL/0544/14

Ann Jones AM
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

30 Mehefin 2014

Y PWYLLGOR PLANT, POBL IFANC AC ADDYSG – CRAFFU CYFNOD 1 AR FIL ADDYSG UWCH (CYMRU)

Yn dilyn fy mhresenoldeb yn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 5 Mehefin cytunais y byddwn yn darparu manylion pellach i'r Aelodau yn y meysydd canlynol: swyddogaethau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (y Cyngor Cyllido); costau; cyrsiau rhan-amser; trefniadau gweithredu ar gyfer ysgolion meddygol a'r berthynas rhwng y Cyngor Cyllido a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch.

Cyn imi ymateb yn fanwl i'r meysydd hynny, hoffwn fanteision ar y cyfle i roi eglurder ynghylch y trefniadau ar gyfer datblygu'r gwaith o ddynodi cyrsiau'n benodol drwy ddeddfwriaeth. Nid yw'r Bil yn darparu ar gyfer dynodi cyrsiau'n awtomatig nac yn benodol; fy mwriad yw ymgynghori ar ofynion newydd ar gyfer dynodi cyrsiau'n benodol gyda'r bwriad o gyflwyno trefniadau sicrhau ansawdd llym a gwiriadau cadarn ar iechyd ariannol sefydliadau sy'n darparu cyrsiau o'r fath. Caiff unrhyw drefniadau newydd ar gyfer dynodi cyrsiau'n benodol eu datblygu drwy bwerau presennol Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Nid oes angen deddfwriaeth newydd felly.

Gan droi yn awr at y meysydd penodol y gofynnodd yr Aelodau am eglurder yn eu cylch, gweler ymatebion manwl isod:

Swyddogaethau'r Cyngor Cyllido

Yn fy natganiad yn y Cyfarfod Llawn, nodais na fyddai modd cynnwys holl swyddogaethau'r Cyngor Cyllido yn y system reoleiddio ddiwygiedig, ac na fydd yn disodli'r system gyllido bresennol yn uniongyrchol. Bydd y Bil yn diwygio, yn diddymu ac yn disodli rhai o swyddogaethau presennol y Cyngor Cyllido. Mae darpariaethau'r Bil yn adeiladu ar swyddogaethau presennol y Cyngor Cyllido o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Deddf Addysg Uwch 2004, gan eu hail-lunio a'u cydgrynhoi yng nghyd-destun y system

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Huw.Lewis@wales.gsi.gov.uk

Tudalen y pecyn 43
Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)

Printed on 100% recycled paper

reoleiddio newydd. Bydd y newidiadau hyn yn sicrhau bod y Cyngor Cyllido yn parhau i allu gorfodi terfynau ffioedd dysgu ac ymrwymadau cynlluniau ffioedd a mynediad, gan roi sicrwydd ynghylch ansawdd yr addysg a'r gwaith o drefnu a rheoli materion ariannol y sefydliadau a reoleiddir.

Bydd swyddogaeth y Cyngor Cyllido o ddyrannu cyllid i sefydliadau o dan adran 65 o Ddeddf 1992 yn dal i fod mewn grym a bydd y Cyngor Cyllido yn dal i allu atodi telerau ac amodau wrth gyllid o'r fath. Fodd bynnag, ers cyflwyno'r gyfundrefn ffioedd dysgu newydd mae swm y cyllid sydd ar gael i'w ddyrannu wedi lleihau'n sylweddol ac mae sefydliadau bellach yn llai dibynnol ar gyllid grant y Cyngor Cyllido ac yn fwy dibynnol yn lle hynny ar incwm ffioedd dysgu gan fyfyrwyr, sy'n cael cymhorthdal sylweddol gan Lywodraeth Cymru. Nid yw'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer diwygio'r ffordd y bydd y Cyngor Cyllido yn gweithio er mwyn cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru; dim ond cyflwyno system reoleiddio newydd y bydd y Bil.

Mae symud o system o reoliadau cyllido i system o reoleiddio statudol yn gyfle i'r Cyngor ailddiffinio ei berthynas â'r sector. Yn fy llythyr cylch gwaith at y Cyngor Cyllido ar gyfer 2014/15 nodais yn glir fy mod yn disgwyl bod y gyfundrefn gyllido a gyflwynwyd yn 2012/13 yn gofyn am ailarfarnu sylfaenol o'r berthynas rhwng y Llywodraeth, y Cyngor Cyllido a sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Gyda'r gyfundrefn gyllido newydd ar gyfer addysg uwch yng Nghymru daw disgwyliadau newydd ar ein prifysgolion. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud buddsoddiad sylweddol iawn drwy'r Cyngor Cyllido o ran y cyllid sy'n mynd yn uniongyrchol i sefydliadau yng Nghymru a'r Grant Ffioedd Dysgu a'r benthyciadau a delir i fyfyrwyr sy'n huanu o Gymru mewn sefydliadau yng Nghymru. Mae'r newid hwn o ran ariannu a'r newid o ran swyddogaeth yn golygu y bydd angen i'r Cyngor ganfod ffyrdd newydd o weithio mewn partneriaeth â'r sector i ddylanwadu ar ymddygiad ac i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion polisi. Rwy'n disgwyl y dylai'r gwaith hwn gynnwys canfod ffyrdd o sicrhau bod swyddogaeth estynedig y Cyngor yn gallu meithrin cydnabyddiaeth gryfach gan sefydliadau o'r cysylltiad rhwng eu statws fel cyrff dynodedig sy'n cael cyllid cyhoeddus a'u cyfrifoldeb i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bob dysgwr. Rwy'n disgwyl i'r Cyngor Cyllido a'n sefydliadau addysg uwch ddatblygu partneriaeth fwy cadarn a fydd yn gyfrwng ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau strategol cenedlaethol a nodir yn fy llythyr cylch gwaith.

Costau

Amcangyfrifir mai'r gost ychwanegol i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn sgil cyflwyno'r Bil yw £1.6m dros bum mlynedd gyntaf ei weithredu. Bydd gweithredu'r Bil yn golygu costau i Lywodraeth Cymru, sefydliadau addysg uwch a'r Cyngor Cyllido.

Amcangyfrifwyd y costau hyn drwy ddefnyddio model tasgau. Cafodd y Bil ei ddadansoddi'n ofalus er mwyn canfod yr holl dasgau a gaiff eu cyflawni wrth weithredu'r fframwaith rheoleiddio newydd. Amcangyfrifwyd nifer y dyddiau a fydd yn angenrheidiol er mwyn cwblhau pob tasg a defnyddiwyd cyfraddau tâl priodol a chostau gorbenion er mwyn dod i amcangyfrif cost ar gyfer y tasgau hynny a gaiff eu cynnal yn rheolaidd, yn ogystal â chostau sancsiynau.

Costiwyd y Bil ar sail Dewis Tri yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Ac eithrio costau unrhyw sancsiynau (y cyfeiriad atynt eto isod) mae amcangyfrifon costau'r Bil wedi eu cofnodi yn nhabl un.

Tabl 1
Costau rheolaidd y Bil

£	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Cymeradwyo cynlluniau ffioedd a dynodi'n awtomatig	341,000	331,000	331,000	341,000	331,000
Monitro a gwerthuso cynlluniau ffioedd	301,000	366,000	470,000	374,000	470,000
Sicrhau ansawdd	405,000	434,000	434,000	490,000	434,000
Sicrwydd ariannol	471,000	574,000	536,000	580,000	577,000
Is-ddeddfwriaeth*	49,000	49,000	0	0	0
Datblygu, hyfforddi, trosolwg	99,000	99,000	29,000	29,000	29,000
CYFANSWM	1,666,000	1,853,000	1,800,000	1,814,000	1,841,000

* Datblygu deddfwriaeth sy'n codi o ganlyniad uniongyrchol i'r Bil.

Mae peth o'r costau hyn yn adlewyrchu, yn rhannol, weithgarwch sy'n parhau, tasgau sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd a fydd yn parhau i gael eu cynnal ar ôl cyflwyno'r Bil (ac sy'n ofynnol drwy ei ddarpariaethau)—costau presennol. Costau ychwanegol, ar y llaw arall, yw costau sy'n codi am ddau reswm:

- i. fe allai fod rhagor o gymhlethdod o ran rheoli a gweinyddu'r tasgau presennol.
- ii. mae'r Bil yn cyflwyno tasgau hollol newydd (o ganlyniad i'r newid o system sy'n seiliedig ar ysgogiadau cyllid sy'n gysylltiedig â thelerau ac amodau i system sy'n seiliedig ar swyddogaethau rheoleiddio penodol).

Mae'r tabl isod, felly, yn rhoi manylion:

- costau ychwanegol—cost tasgau rheoleiddio hollol newydd a gyflwynir gan y Bil; a chynnydd o ran costau ar gyfer tasgau sy'n parhau. Mae'r dadansoddiad yn tybio cynnydd o 25% o ran costau ar gyfer tasgau sy'n parhau.
- costau presennol—cost bresennol tasgau sy'n parhau.

Tabl 2

Costau ychwanegol y Bil, a chostau presennol

£	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Ychwanegol	556,000	549,000	496,000	493,000	537,000
Presennol	1,109,000	1,303,000	1,303,000	1,321,000	1,303,000
CYFANSWM	1,666,000	1,853,000	1,800,000	1,814,000	1,841,000

Mae graddau'r costau hyn rhwng sefydliadau addysg uwch, y Cyngor Cyllido a Llywodraeth Cymru i'w gweld yn eglur yn y dadansoddiad tasgau sy'n sail i'r model costio. Amcangyfrifir mai'r gost ychwanegol i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn sgil cyflwyno'r Bil hwn yw £1.6m dros bum mlynedd gyntaf ei weithredu.

Tabl 3

Graddau costau ychwanegol y Bil

£	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	TOTAL
Llywodraeth Cymru	172,000	113,000	29,000	87,000	29,000	430,000
Cyngor Cyllido	126,000	128,000	104,000	97,000	145,000	600,000
Sefydliadau [†]	258,000	308,000	363,000	308,000	363,000	1,600,000
CYFANSWM	556,000	549,000	496,000	493,000	537,000	2,631,000

† Ar hyn o bryd mae 10 sefydliad â chynlluniau ffioedd ac mae'r dadansoddiad felly yn rhagdybio 10 sefydliad.

Yn olaf, petai gofyn am 'sanctsiynau' (a ddefnyddir yma fel llaw-fer ar gyfer gweithgarwch sy'n ymwneud â chywiros unrhyw fethiant i gydymffurfio â'r fframwaith rheoleiddio) byddai hynny'n golygu rhagor o gostau. Nid oes modd rhagfynegi gyda sicrwydd pa sanctsiynau fyddai'n ofynnol, na phryd. Roedd y ddwy sefyllfa a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (tudalen 95) yn cynnig ystod o gostau ychwanegol posibl i sefydliadau addysg uwch, rhwng £73,000 a £188,000.

Cyrsiau rhan-amser

Mae paragraff 112 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi: "Efallai y bydd nifer fach o sefydliadau, gan gynnwys y Brifysgol Agored yng Nghymru ac, o bosibl, rai sefydliadau addysg bellach a darparwyr preifat sydd ond yn darparu cyrsiau addysg uwch rhan-amser. Bydd darpariaeth ran-amser y darparwyr hyn yn syrthio y tu allan i gwmpas dyletswydd newydd CCAUC i asesu ansawdd, sydd ond yn ymwneud ag addysg a ddarperir gan, neu ar ran, sefydliadau a reoleiddir."

Er eglurder, hoffwn nodi y bydd addysg sy'n cael ei darparu gan ddarparwyr cyrsiau rhan-amser yn unig yn syrthio y tu allan i gwmpas dyletswydd asesu ansawdd newydd y Cyngor Cyllido, ond dim ond tra bydd ffioedd rhan-amser yn parhau i fod heb eu rheoleiddio. Os bydd ffioedd rhan-amser yn dechrau cael eu rheoleiddio rywbryd yn y dyfodol, bydd darparwyr cyrsiau rhan-amser yn unig yn gallu gwneud cais i'r Cyngor Cyllido i gael cymeradwyaeth ar gyfer cynllun ffioedd a mynediad yn yr un ffordd â darparwyr cyrsiau amser llawn. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor Cyllido ar gyfer eu cynlluniau, byddant yn dod yn sefydliadau a reoleiddir a bydd addysg ran-amser sy'n cael ei darparu gan ddarparwyr o'r fath yn rhan o gwmpas dyletswydd asesu ansawdd y Cyngor Cyllido. Yn gryno, does dim yn y Bil sy'n atal yr addysg sy'n cael ei darparu gan ddarparwyr cyrsiau rhan-amser yn unig rhag bod yn ddarostyngedig i ddyletswydd asesu ansawdd y Cyngor Cyllido yn y dyfodol, ac nid oes 'bwllch' o ran cynnwys addysg o'r fath am y rhesymau a nodir isod.

Rwy'n rhagweld y bydd mwyafrif y cyrsiau rhan-amser sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd yng Nghymru o fewn cwmpas gofynion ansawdd y fframwaith rheoleiddio newydd. Y rheswm am hynny yw y bydd dyletswydd asesu ansawdd y Cyngor Cyllido yn berthnasol i bob cwrs (amser llawn neu ran-amser), sy'n cael ei ddarparu gan sefydliadau yng Nghymru sydd â chynllun ffioedd a mynediad gweithredol.

Bydd dyletswydd asesu ansawdd newydd y Cyngor Cyllido hefyd yn berthnasol i rai cyrsiau breiniol. Bydd gofyn i'r Cyngor Cyllido sicrhau ei fod yn asesu ansawdd cyrsiau breiniol sy'n cael eu darparu yng Nghymru ar ran sefydliadau o Gymru a reoleiddir. Mae fy swyddogion yn cynnal trafodaethau ar hyn o bryd gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch Gorchymyn arfaethedig o dan adran 150 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Un o nodau'r Gorchymyn hwn fydd ymestyn dyletswydd asesu ansawdd y Cyngor Cyllido fel ei bod hefyd yn berthnasol i addysg sy'n cael ei darparu yn Lloegr gan sefydliad wedi'i freinio yn darparu ar ran sefydliad breinio o Gymru a reoleiddir. Fodd bynnag, mater i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr fydd unrhyw ddarpariaeth a ddarperir yng Nghymru gan sefydliad wedi'i freinio drwy drefniadau gyda sefydliad breinio yn Lloegr, ac mewn sefyllfa o'r fath bydd rhaid inni ddibynnu ar y systemau rheoleiddio sydd ar waith ganddynt hwy.

Yn ogystal, bydd y Cyngor Cyllido yn gallu sicrhau trefniadau asesu ansawdd mewn sefydliadau a ariennir sy'n darparu cyrsiau rhan-amser yn unig drwy delerau ac amodau ariannu (yn yr un ffordd ag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd). Mae hyn oherwydd y bydd y Cyngor Cyllido yn parhau i dalu peth cyllid rheolaidd i sefydliadau am gyrsiau rhan-amser ar gyfer y dyfodol rhagweladwy. Fel yr esbonnir uchod, efallai mai dim ond mesur dros dro fydd hyn. Os bydd ffioedd rhan-amser yn dechrau cael eu rheoleiddio, bydd yr addysg sy'n cael ei darparu gan ddarparwyr rhan-amser yn unig – neu ar ran darparwyr o'r fath – yn dod o fewn cwmpas dyletswydd asesu ansawdd newydd y Cyngor Cyllido.

Bydd y Brifysgol Agored yn parhau i gael ei hasesu gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd drwy'r trefniadau presennol y mae'r Cyngor Cyllido wedi eu rhoi ar waith gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr.

O ran darparwyr preifat, bydd y trefniadau asesu ansawdd yn dibynnu a yw eu cyrsiau wedi'u dynodi at ddibenion cymorth i fyfyrwyr. I ddarparwyr sy'n darparu cyrsiau rhan-amser yn unig byddai hyn yn digwydd drwy'r llwybr dynodi fesul achos. Ni fydd y trefniadau newydd a gynigir ar gyfer dynodi fesul achos yn gofyn am ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol ac felly nid ydynt yn rhan o'r Bil. Fodd bynnag, bydd y trefniadau newydd yn cynnwys gofynion cadarn ar gyfer ansawdd cyrsiau, a byddant yn destun ymgynghoriad maes o law. Fodd bynnag, os nad yw cyrsiau darparwr preifat wedi'u dynodi at ddibenion cymorth i

fyfyrwyr, ni fyddai'n briodol gosod trefniadau asesu ansawdd lle nad oes buddiant ariannol gan y Llywodraeth (na chyrff cyhoeddus eraill).

Rwyf wedi sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio wedi'i lunio fel bod modd cynnwys cyrsiau rhan-amser yn y dyfodol os gwneir penderfyniad i reoleiddio ffioedd rhan-amser. Yn y cyfamser, rwy'n fodlon bod y trefniadau angenrheidiol yn bodoli er mwyn sicrhau bod yr holl ddarpariaeth a ddynodwyd ar gyfer cymorth i fyfyrwyr yn parhau i fod yn ddarostyngedig i ofynion asesu ansawdd llym.

Trefniadau gweithredu ar gyfer ysgolion meddygol

O ran addysg feddygol israddedig, mater i bob sefydliad addysg uwch yw sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i alluogi eu myfyrwyr i gydymffurfio'n llawn â gofynion y Cyngor Meddygol Cyffredinol ac eraill o ran cyrraedd safonau. Yn ogystal, bydd angen strwythuro'r trefniadau hyn yn y ffordd orau i fodloni gofynion cwricwlwm israddedig sefydliad unigol. Nid wyf o'r farn na fyddai sefydliadau a Byrddau Iechyd yn dymuno bod yn rhan o'r trefniadau hynny. O safbwynt Byrddau Iechyd yng Nghymru, byddent yn gweld hyn fel cyfle i ddangos manteision gweithio yng Nghymru i fyfyrwyr, a byddent yn ei weld o bosibl fel cyfle i ymwneud â nhw fel gweithwyr posibl ar gyfer y dyfodol ac i ddylanwadu arnynt drwy'r cyfleoedd hyn.

Mae'r sefyllfa'n debyg o ran hyfforddiant ôl-raddedig. Yn y gorffennol, roedd yn ofynnol i hyfforddeion gylchdroi rhwng y de a'r gogledd fel rhan o'r sawl rhaglen hyfforddiant a oedd ar gael. Roedd hyn yn destun pryder i rai hyfforddeion, a llawer ohonynt yn dewis peidio â hyfforddi yng Nghymru oherwydd y dull hwn. Fodd bynnag, wrth ymateb i gwestiynau diweddar am y mater hwn, nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn glir nad oes rhwystrau o gyfeiriad Llywodraeth Cymru o ran trefnu hyfforddiant ar sail Cymru / Lloegr lle byddai manteision gwneud hynny yn drech na'r anfanteision. Gofynnwyd i'r Ddeoniaeth sicrhau eu bod yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu'r dull hwn yn y dyfodol. Mae gan Ddeoniaeth Cymru gysylltiadau cryfion eisoes gyda deoniaethau eraill y tu allan i Gymru ac rydym yn gweithio gyda nhw er mwyn sicrhau'r trefniadau gorau i hyfforddeion.

Trefniadau yw'r rhain felly sy'n dod o dan gylch gwaith sefydliadau unigol ac sydd y tu hwnt i gwmpas y Bil; yn hynny o beth ni fydd y Bil yn effeithio arnynt. Fodd bynnag, byddwn yn cofio am eich pryderon er mwyn sicrhau nad oes effaith niweidiol anfwriadol.

Y berthynas rhwng y Cyngor Cyllido a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd

Mae'r berthynas bresennol rhwng y Cyngor Cyllido a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn seiliedig ar ddyletswydd asesu ansawdd y Cyngor Cyllido yn adran 70 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Mae'r ddyletswydd hon yn galluogi'r Cyngor Cyllido i sicrhau darpariaeth o weithgarwch asesu ansawdd drwy'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd.

Wrth baratoi'r Bil hwn rwyf wedi bod yn awyddus i sicrhau bod y Cyngor Cyllido yn cadw'r hyblygrwydd hwn i ddefnyddio'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd o ran asesu ansawdd. Am y rheswm hwn, mae adran 17 o'r Bil yn galluogi'r Cyngor Cyllido i gyflawni ei ddyletswydd asesu ansawdd drwy drefniadau gyda'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd.

Mater i'r Cyngor Cyllido fydd hyn yn y pen draw. Fodd bynnag, roeddwn yn falch o weld y dystiolaeth a ddarparwyd i'r pwyllgor gan Dr Blaney o'r Cyngor Cyllido, yn nodi bwriad i barhau â dull ledled y Deyrnas Unedig ar gyfer asesu ansawdd. Gan fod y trefniadau

presennol ledled y Deyrnas Unedig yn cynnwys yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, rwy'n rhagweld y bydd y berthynas hon yn parhau yn y dyfodol.

O ystyried y berthynas barhaus hon, cefais gyfarfod â'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ym mis Rhagfyr a rhoddais ddiweddariad iddynt ynghylch fy nghynigion ar gyfer y Bil hwn a'r goblygiadau posibl i'r Cyngor Cyllido a thrwy hynny i'r gweithgareddau a gynhelir ar ei ran gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd.

Yn ogystal, mae fy swyddogion i a swyddogion y Cyngor Cyllido yn cwrdd â'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn rheolaidd er mwyn trafod gwahanol faterion, gan gynnwys materion penodol a chyffredinol sy'n effeithio ar y gwaith o ddarparu addysg uwch yng Nghymru. Fodd bynnag, yn yr un modd â'r sefyllfa bresennol, bydd swyddogaeth yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn canolbwyntio ar asesu ansawdd yr addysg a ddarperir gan sefydliadau yng Nghymru, tra bydd cymeradwyo a monitro cynlluniau ffioedd a mynediad yn parhau i fod yn fater i'r Cyngor Cyllido.

Hyderaf fod y wybodaeth rwyf wedi ei darparu yn ddefnyddiol a'i bod yn rhoi eglurder i'r Pwyllgor ynghylch fy safbwynt ar y materion uchod. Edrychaf ymlaen at ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 9 Gorffennaf 2014.

Best Regards

Huw

Huw Lewis AC / AM

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills

Eitem 3.2

Huw Lewis AC / AM
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref LF/HL/0560/14

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

30 Mehefin 2014

Bil Addysg Uwch (Cymru) – Eglurder am y costau yn yr Atodiad

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Mehefin 2014, ynghylch y costau sy'n gysylltiedig â Bil Addysg Uwch (Cymru).

Rwy'n falch bod lefel y manylder yn y Memorandwm Esboniadol wedi bod yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor. Mae'r tabl a ganlyn yn cynnwys dadansoddiad o'r diwrnodau tasg sy'n gysylltiedig â'r prif dasgau a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Er mwyn eich helpu i ddeall, mae'r 'is-dasgau' a ddefnyddiwyd i ddadansoddi costau hefyd wedi'u cynnwys.

Hyderaf fod y wybodaeth hon o fudd i chi a'i bod yn ymateb i gwestiynau penodol y Pwyllgor.

Best Regards
Huw

Huw Lewis AC / AM
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills

	Iau	Canol	Uwch	Arbenigol
Cymeradwyo cynlluniau ffioedd a dynodi cyrsiau'n awtomatig				
RHEOLAIDD				
Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (Cyngor Cyllido) am ddynodi cyrsiau a chymeradwyo cynlluniau ffioedd	5	25	6	2
Cyngor Cyllido i ddarparu gwybodaeth i ymgeiswyr am y broses a'r gofynion dynodi	5	15	5	3
Cyngor Cyllido i ddarparu gwybodaeth i ymgeiswyr am y gofynion rheoleiddio	5	15	5	3
Sefydliadau i lunio cynlluniau ffioedd	12	60	10	5
Sefydliadau i gynnwys darpariaethau ynghylch cadw myfyrwyr sy'n aelodau o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch	Gwybodaeth yn unig			
Gofyniad ar sefydliadau i amlinellu cyfran yr incwm ffioedd sydd uwchben y trothwy y maent yn bwriadu ei ddefnyddio ar amcanion y cynllun ffioedd				
Cyngor Cyllido i dderbyn ac asesu cynlluniau ffioedd	5	25	16	2
Cyngor Cyllido i roi sylw i ansawdd yr addysg yn y sefydliad	Gwybodaeth yn unig			
Cyngor Cyllido i roi sylw i sefydlogrwydd ariannol y sefydliad				
Cyngor Cyllido i roi sylw i'r trefniadau llywodraethu corfforaethol sydd ar waith				
Cyngor Cyllido i sefydlu statws elusennol y sefydliad sy'n gwneud cais				
Gofyniad ar y Cyngor Cyllido i fod yn gymesur wrth gymeradwyo a gorfodi cynlluniau ffioedd yn ddibynnol ar lefel y ffi				
SANCSIYNAU/CYDYMFFURFIAETH				
Sefydliadau yn gallu gwneud cais i amrywio'r cynllun ffioedd	4	20	5	2
Cyngor Cyllido i gymeradwyo amrywiadau	2	20	9	2
Cyngor Cyllido i dynnu cymeradwyaeth o gynllun ffioedd yn ôl os yw statws elusennol sefydliad yn dod i ben	Gweler 'Gwrthod cynllun ffioedd/Tynnu cynllun ffioedd yn ôl'			
Monitro a gwerthuso cynllun ffioedd				
RHEOLAIDD				
Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i'r Cyngor Cyllido am fonitro a gwerthuso	5	20	6	2
Rhaid i Gyrrff Llywodraethu Sefydliadau fonitro cydymffurfiaeth â'r cynllun a chynnydd o ran cyflawni amcanion	12	60	15	10

	lau	Canol	Uwch	Arbenigol
Cyngor Cyllido i fonitro a gwerthuso pa mor effeithiol yw cynlluniau yn unigol ac ar lefel y sector ac i ddefnyddio hyn i ddatblygu canllawiau arferion da	5	40	21	5
Cyngor Cyllido i gyhoeddi cyngor arferion da ar dargedu grwpiau penodol sydd dan anfantais neu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol	Gan gynnwys yr uchod			
Sefydliadau â chynllun ffioedd i gydweithio ac ymgysylltu â'r Cyngor Cyllido at ddibenion gwerthuso	4	20	5	2
Cyngor Cyllido â'r gallu i gomisiynu rhywrai i gasglu gwybodaeth ac i gynnal gwaith ymchwil a dadansoddi er mwyn cynorthwyo â'r gwaith o werthuso canlyniadau cynllun ffioedd	4	35	20	2
Bydd gofyn i sefydliadau roi sylw dyledus i ganllawiau arferion da a gyhoeddir gan y Cyngor Cyllido	Gwybodaeth yn unig			
Cyngor Cyllido i fonitro cynlluniau ffioedd a chanfod y trefniadau monitro gorau ar gyfer cynlluniau ffioedd	5	40	18	2
SANCSIYNAU/CYDYMFFURFIAETH				
Caiff Gweinidogion Cymru ofyn i'r Cyngor Cyllido gynnal adolygiad o gynlluniau ffioedd yn ôl yr angen	Eitemau unigol isod			
pan fydd Gweinidogion Cymru am gael adroddiad gan y Cyngor Cyllido am gydymffurfiaeth gyffredinol sefydliadau a reoleiddir	3	15	12	1
pan fydd Gweinidogion Cymru am gael adroddiad gan y Cyngor Cyllido am gydymffurfiaeth sefydliad penodol a reoleiddir	3	25	9	2
pan fydd Gweinidogion Cymru am gael adroddiad gan y Cyngor Cyllido am effeithiolrwydd cyffredinol sefydliadau a reoleiddir	3	15	12	1
pan fydd Gweinidogion Cymru am gael adroddiad gan y Cyngor Cyllido am effeithiolrwydd sefydliad penodol a reoleiddir	3	25	9	3
Cyngor Cyllido yn gallu cyfarwyddo sefydliad i fuddsoddi cyfran benodol o'r incwm ffioedd ar weithgareddau sy'n ymwneud â hyrwyddo cyfle cyfartal a/neu hyrwyddo addysg uwch	Swm yr eitemau isod			
Proses Gydymffurfio I	Gweler 'Proses Gydymffurfio I'			
Proses Gydymffurfio II	Gweler 'Proses Gydymffurfio II'			
Cyngor Cyllido â'r gallu i ddiwygio'r cyfarwyddyd os yw'r cyfarwyddyd wedi'i gyflawni'n rhannol	3	12	6	2
Cyngor Cyllido â'r gallu i gyfarwyddo sefydliad i amrywio cynllun ffioedd i adlewyrchu'r cyfarwyddyd gwario	3	12	6	2
Cyngor Cyllido â'r gallu i wrthod cymeradwyo cynllun ffioedd adeg ei adnewyddu pan fo sefydliad wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol y cynllun	Gweler 'Gwrthod cynllun ffioedd/Tynnu cynllun ffioedd yn ôl'			
Cyngor Cyllido i dynnu cymeradwyaeth o gynllun ffioedd yn ôl os bydd sefydliad yn methu â chydymffurfio â gofynion y cynllun ffioedd yn barhaus	Gweler 'Gwrthod cynllun ffioedd/Tynnu cynllun ffioedd yn ôl'			

	lau	Canol	Uwch	Arbenigol
Rheolaethau ffioedd dysgu				
SANCSIYNAU/CYDYMFFURFIAETH				
Cyngor Cyllido â'r gallu i gyhoeddi canllawiau i sefydliadau am y camau i'w cymryd er mwyn cydymffurfio â therfyn ffioedd	5	15	12	2
Caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i'r Cyngor Cyllido	5	20	6	5
Cyngor Cyllido i ymgynghori â sefydliadau priodol cyn cyhoeddi canllawiau o'r fath	5	15	15	2
Cyrff llywodraethu sefydliadau i roi sylw i ganllawiau	Gwybodaeth yn unig			
Cyngor Cyllido â'r gallu i gyfarwyddo sefydliad i gymryd camau i gydymffurfio â'r terfyn ffioedd priodol a/neu ad-dalu unrhyw ffioedd gormodol sydd wedi'u talu iddo.	Swm yr eitemau isod			
Sefydliad i ad-dalu ffioedd	20	30	10	5
Proses Gydymffurfio I	Gweler 'Proses Gydymffurfio I'			
Proses Gydymffurfio II	Gweler 'Proses Gydymffurfio II'			
Cyngor Cyllido â'r gallu i ddiwygio'r cyfarwyddyd os yw'r cyfarwyddyd wedi'i gyflawni'n rhannol	3	12	6	2
Cyngor Cyllido i gyhoeddi asesiad o unrhyw sefydliad y mae'r Cyngor yn barnu nad yw wedi gwneud cynnydd digonol yn erbyn ei gynllun ffioedd	3	12	9	2
Cyngor Cyllido â'r gallu i wrthod cymeradwyo cynllun ffioedd adeg ei adnewyddu pan fo sefydliad wedi methu â chydymffurfio â therfyn ffioedd sydd wedi'i nodi yn y cynllun	Gweler 'Gwrthod cynllun ffioedd/Tynnu cynllun ffioedd yn ôl'			
Cyngor Cyllido i dynnu cymeradwyaeth o gynllun ffioedd yn ôl os yw sefydliad yn methu â chydymffurfio â therfynau ffioedd yn barhaus	Gweler 'Gwrthod cynllun ffioedd/Tynnu cynllun ffioedd yn ôl'			
Asesu Ansawdd				
RHEOLAIDD				
Cyngor Cyllido i asesu neu wneud darpariaethau i asesu ansawdd	4	20	18	4
Gweinidogion Cymru â'r gallu i ddarparu canllawiau i'r Cyngor Cyllido ynghylch arfer ei swyddogaethau asesu ansawdd a chynhyrchu adroddiad blynyddol.	5	25	5	2
Gweinidogion Cymru i ymgynghori â'r Cyngor Cyllido cyn cyhoeddi canllawiau	1	3	1	0
Cyngor Cyllido i roi sylw dyledus i'r canllawiau hyn	Gwybodaeth yn unig			

	lau	Canol	Uwch	Arbenigol
Dylai'r Cyngor Cyllido baratoi datganiad yn esbonio sut y bydd yn arfer y swyddogaethau newydd, ymgynghori arno a'i gyhoeddi	5	30	18	4
Cyngor Cyllido i gyhoeddi canllawiau i sefydliadau a reoleiddir ynghylch asesu ansawdd.	5	30	18	4
Canllawiau i gynnwys cynnal tanysgrifiad i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch	Gwybodaeth yn unig			
Sefydliadau i roi sylw dyledus i ganllawiau	Gwybodaeth yn unig			
Cyngor Cyllido i sefydlu a chynnal pwyllgor i ddarparu cyngor ar ei ddyletswydd i asesu ansawdd gan gynnwys unrhyw swyddogaethau a roddwyd iddo gan Weinidogion Cymru	4	12	9	18
Cyngor Cyllido i gyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru am y modd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau i asesu ansawdd	4	12	9	2
Gweinidogion Cymru â'r gallu i gyfarwyddo'r Cyngor Cyllido o ran ffurf a chynnwys yr adroddiad blynyddol	5	15	1	1
Rhwymedigaeth ar sefydliadau i ymgymryd â'r trefniadau asesu ansawdd	20	80	10	10
SANCSIYNAU/CYDYMFFURFIAETH				
Cyngor Cyllido i roi cyfarwyddyd i sefydliad a reoleiddir a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol iddo ganiatáu mynediad i eiddo ac at gofnodion a dogfennau	10	30	30	12
Cyngor Cyllido â'r gallu i orfodi cydymffurfiaeth â chyfarwyddyd o'r fath drwy waharddeb Lllys	10	30	40	12
Caiff y Cyngor Cyllido gyfarwyddo sefydliadau a reoleiddir i gymryd neu i beidio â chymryd camau penodol i gywiro unrhyw wendidau mewn ansawdd				
Proses Gydymffurfio I	Gweler 'Proses Gydymffurfio I'			
Proses Gydymffurfio II	Gweler 'Proses Gydymffurfio II'			
Cyngor Cyllido â'r gallu i roi hysbysiad o'i fwriad i wrthod cymeradwyo cynllun ffioedd adeg ei adnewyddu	3	15	15	6
Cyngor Cyllido â'r gallu i dynnu hysbysiad o'r fath yn ôl	3	15	15	6
Cyngor Cyllido â'r gallu i gyfarwyddo sefydliad i ddatblygu cynlluniau gweithredu a'u rhoi ar waith er mwyn mynd i'r afael â methiannau/gwendidau mewn ansawdd	15	40	5	2
Byddai cynlluniau o'r fath yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor Cyllido	6	24	30	8
Caiff y Cyngor Cyllido gymryd camau ychwanegol pan fo o'r farn bod sefydliad yn methu â bodloni gofynion ansawdd	Eitemau unigol isod			
Cyngor Cyllido â'r gallu i anfon tîm cymorth i mewn	3	15	15	2

	lau	Canol	Uwch	Arbenigol
Cyngor Cyllido â'r gallu i gynnal adolygiadau sicrwydd ychwanegol	2	10	6	1
Cyngor Cyllido â'r gallu i fynd i gyfarfodydd corff llywodraethu / bwrdd rheoli sefydliad a reoleiddir, a'u hannerch	2	15	8	2
Dyletswydd ar sefydliadau i gydymffurfio â'r mesurau uchod	5	20	5	2
Cyngor Cyllido â'r gallu i orfodi cydymffurfiaeth â chyfarwyddyd o'r fath drwy waharddeb Lllys	2	10	15	2
Cyngor Cyllido â'r gallu i dynnu ei gymeradwyaeth o gynllun ffioedd sefydliad a reoleiddir yn ôl	Gweler 'Gwrthod cynllun ffioedd/Tynnu cynllun ffioedd yn ôl'			
Sicrwydd ariannol				
RHEOLAIDD				
Gweinidogion Cymru â'r gallu i gyhoeddi canllawiau ynghylch paratoi'r Cod Rheolaeth Ariannol	5	25	5	3
Gweinidogion Cymru i osod y Cod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol	4	5	1	2
Cyngor Cyllido i baratoi a chyhoeddi Cod Rheolaeth Ariannol	2	8	12	2
Cyngor Cyllido i barhau i adolygu'r Cod	2	5	2	1
Cyngor Cyllido i gynnal ymgynghoriad ar ddrafft o'r Cod neu unrhyw adolygiad dilynol	2	8	12	2
Dyletswydd ar sefydliadau i gydymffurfio â gofynion a osodir gan y Cod	20	80	10	10
Sefydliadau i roi sylw i'r canllawiau hyn	Gwybodaeth yn unig			
Cyngor Cyllido i gyflwyno drafft o'r Cod i Weinidogion Cymru ar ôl cynnal ymgynghoriad arno i'w gymeradwyo	1	2	2	0
Cyngor Cyllido i roi'r Cod i sefydliadau a reoleiddir a chyhoeddi'r Cod ar ei wefan	2	2	0	0
Cyngor Cyllido â'r gallu i gomisiynu astudiaethau effeithlonrwydd yn seiliedig ar y Cod	5	60	20	1
Cyngor Cyllido i fonitro'r trefniadau ariannol sydd ar waith mewn sefydliadau a reoleiddir	5	20	12	5
Dylai fod yn ofynnol i'r Cyngor Cyllido baratoi datganiad am bolisi'r Cyngor ar arfer ei swyddogaethau ymyrryd arfaethedig, ymgynghori arno a'i gyhoeddi	2	5	5	2
Gweinidogion Cymru i bennu'r dull y dylai'r Cyngor Cyllido baratoi datganiad am bwerau ymyrryd, ymgynghori arno a'i gyhoeddi	5	10	2	2
Cyngor Cyllido i gynnal ymgynghoriad ar bolisi drafft a drafft diwygiedig ar ôl adolygiad	Gan gynnwys yr uchod			
Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau am y materion sydd i'w cynnwys yn y polisi ymyrryd	5	20	3	4

	lau	Canol	Uwch	Arbenigol
Cyngor Cyllido i roi sylw i'r canllawiau hynny				Gwybodaeth yn unig
Dyletswydd ar sefydliadau i ymgymryd â'r trefniadau sicrwydd a roddwyd ar waith gan y Cyngor Cyllido ac i ddarparu cymorth, mynediad a gwybodaeth	10	20	5	2
Cyngor Cyllido â'r gallu i roi cyfarwyddyd, sy'n orfodol drwy waharddeb, i sefydliad a reoleiddir a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol iddo ganiatáu mynediad (i eiddo, at gofnodion ac ati)	5	30	18	4
Dylai fod yn ofynnol i'r Cyngor Cyllido ddarparu adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru sy'n nodi sut mae'r Cyngor wedi cyflawni ei swyddogaethau sicrwydd ariannol	2	8	6	1
Gweinidogion Cymru â'r gallu i gyhoeddi canllawiau ynghylch y ffurf a'r cynnwys	5	10	2	1
SANCSIYNAU/CYDYMFFURFIAETH				
Cyngor Cyllido i ymyrryd os bydd darparwr a reoleiddir yn methu â chydymffurfio (neu'n debygol o fethu â chydymffurfio) â gofynion y Cod				I'w weld isod
Cyngor Cyllido â'r gallu i gyfarwyddo sefydliad i gymryd neu i beidio â chymryd camau penodol				
Proses Gydfurfio I				Gweler 'Proses Gydfurfio I'
Proses Gydfurfio II				Gweler 'Proses Gydfurfio II'
Fel dewis amgen i waharddeb, y Cyngor Cyllido i roi hysbysiad o'r bwriad i wrthod cymeradwyo cynllun ffioedd adeg ei adnewyddu				Gweler 'Gwrthod cynllun ffioedd/Tynnu cynllun ffioedd yn ôl'
Cyngor Cyllido â'r gallu i dynnu'n ôl hysbysiad i wrthod cymeradwyo cynllun ffioedd adeg ei adnewyddu	2	20	12	2
Cyngor Cyllido i ddarparu hysbysiad ysgrifenedig i sefydliad pan fo cydymffurfiaeth â'r cyfarwyddyd	2	8	12	2
Cyngor Cyllido â'r gallu i anfon tîm cymorth i mewn				Eitemau unigol isod
Cyngor Cyllido â'r gallu i ddarparu tîm cymorth	5	35	21	4
Cyngor Cyllido â'r gallu i gynnal adolygiadau	4	8	4	1
Cyngor Cyllido â'r gallu i fynd i gyfarfodydd cyrff llywodraethu neu bwyllgor, a/neu eu hannerch	1	35	18	4
Dyletswydd ar sefydliadau i roi sylw i gyngor ac ati gan y Cyngor Cyllido	5	15	7	5
Cyngor Cyllido â'r gallu i dynnu cymeradwyaeth o gynllun ffioedd a gymeradwywyd yn ôl os yw'r methiant i gydymffurfio â'r Cod yn ddigon difrifol				Gweler 'Gwrthod cynllun ffioedd/Tynnu cynllun ffioedd yn ôl'
Diffiniad o sefydliad				

	lau	Canol	Uwch	Arbenigol
Gweinidogion Cymru i ddiwygio Gorchmynion Cyrff sy'n Cael eu Cydnabod a Chyrff sy'n Cael eu Rhestru yn rheolaidd	10	5	1	6
Gwrthod cynllun ffioedd/Tynnu cynllun ffioedd yn ôl				
Cyngor Cyllido i dynnu cymeradwyaeth o gynllun ffioedd yn ôl	Swm yr eitemau isod			
Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i'r Cyngor Cyllido ynghylch arfer ei allu i dynnu cynlluniau ffioedd yn ôl	5	20	3	5
Proses Gydfurfiol I	Gweler 'Proses Gydfurfiol I'			
Pan fydd cynllun ffioedd yn cael ei dynnu'n ôl, bydd angen mesurau trosiannol i alluogi myfyrwyr i barhau i fod yn gymwys i gael cymorth	15	25	10	10
Cyngor Cyllido â'r gallu i wrthod cymeradwyo cynllun ffioedd adeg ei adnewyddu	Swm yr eitemau isod			
Proses Gydfurfiol I	Gweler 'Proses Gydfurfiol I'			
Pan fydd cynllun ffioedd yn cael ei wrthod, bydd angen mesurau trosiannol i alluogi myfyrwyr i barhau i fod yn gymwys i gael cymorth	Fel uchod			
Prosesau cydfurfiol				
Proses Gydfurfiol I	Swm yr eitemau isod			
Gofyniad ar y Cyngor Cyllido i roi hysbysiad rhybuddio	1	10	6	2
Gallu gan sefydliadau sy'n destun hysbysiadau rhybuddio o'r fath i gyflwyno sylwadau yn erbyn y cyfarwyddyd	5	25	10	2
Bydd yn ofynnol i'r Cyngor Cyllido roi sylw i unrhyw sylwadau a dderbynnir gan y sefydliad a reoleiddir	1	10	6	2
Cyngor Cyllido â'r gallu i roi hysbysiad cyfarwyddyd	1	10	9	2
Dylai fod gallu gan sefydliadau sy'n destun y penderfyniad i ofyn am adolygiad gan unigolyn neu banel annibynnol	2	8	5	0
Bydd yn ofynnol i'r Cyngor Cyllido ailystyried ei benderfyniad gan roi sylw i unrhyw argymhelliad	1	10	5	2
Dyletswydd ar sefydliadau i gydymffurfio â'r cyfarwyddyd	5	25	10	2
Cyngor Cyllido i ddirymu'r cyfarwyddyd pan fydd y cyfarwyddyd wedi'i gyflawni	1	6	3	1
Proses Gydfurfiol II	Swm yr eitemau isod			
Cyngor Cyllido â'r gallu i orfodi cydfurfiaeth â chyfarwyddyd o'r fath drwy waharddeb Llys	2	14	10	3

Eitem 3.3

Huw L ewis AC / AM

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Minister for Education and Skills

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LF/HL/0645/14

David Melding AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a
Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

02 Gorffennaf 2014

Annwyl David,

Y PWYLLGOR MATERION CYFANSODDIADOL A DEDDFWRIAETHOL - CYFNOD 1 CRAFFU AR FIL ADDYSG UWCH (CYMRU)

Tra oeddwn yn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 16 Mehefin, cododd Aelodau nifer o gwestiynau yngl n   Bil Addysg Uwch (Cymru). Mae'r llythyr hwn yn ceisio ymateb i'r materion penodol a godwyd gan Aelodau. I helpu'r Pwyllgor wrth iddo ystyried y Bil ymhellach, fodd bynnag, yn gyntaf nodaf yr egwyddorion bras a fu'n sail i'r gwaith o ddrafftio'r Bil.

Pan gyflwynais y Bil ar 19 Mai 2014, a thra oeddwn yng nghyfarfod y Pwyllgor, rhoddais sicrwydd ein bod, gydol y gwaith o baratoi'r ddeddfwriaeth hon, wedi rhoi sylw i ganllawiau'r Cwnsler Cyffredinol ar is-ddeddfwriaeth. Mae'r canllawiau yn cydnabod bod cydbwysedd i'w gadw ym mhob achos rhwng:

- gwaith craffu gan y Cynulliad;
- traul ar amser y Cynulliad (neu bwyllgor);
- arwyddoc ad y darpariaethau o dan sylw; a
- gwneud deddfwriaeth yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Mae'r canllawiau'n amlinellu amryw o ffactorau sydd, i raddau mwy neu lai, yn dibynnu ar y cyd-destun, yn gallu awgrymu un ai mai'r weithdrefn "gadarnhaol ddrafft" yw'r un sydd i'w chymhwyso; neu'n gofyn am gyfiawnhad penodol os yw gweithdrefn nad yw'n weithdrefn "gadarnhaol ddrafft" yn cael ei chymhwyso. Y ffactorau hynny yw:

- “1) pwerau sy'n galluogi bod darpariaeth yn cael ei gwneud a all effeithio'n sylweddol ar ddarpariaethau Deddfau Seneddol, Mesurau Cynulliad neu Ddeddfau'r Cynulliad;
- 2) pwerau y mae eu prif bwrpas yn un sy'n galluogi Gweinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol i roi rhagor o bwerau sylweddol iddynt hwy eu hunain;
- 3) pwerau i gymhwyso yng Nghymru ddarpariaethau, er enghraifft, yn Neddfau Seneddol sydd yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon wedi eu cynnwys yn y Ddeddf ei hun (p'un ai gydag addasiadau neu hebddynt);
- 4) pwerau i osod neu gynyddu trethiant neu feichiau ariannol sylweddol eraill ar y cyhoedd;
- 5) darpariaeth sy'n golygu gwariant sylweddol gan y llywodraeth;
- 6) pwerau i greu darpariaethau troseddol anarferol neu gosbau sifil anarferol;
- 7) pwerau i roi pwerau anarferol o ran mynediad, archwiliad neu arolygiad, neu i ddarparu ar gyfer casglu gwybodaeth o dan bwerau gorfodi;
- 8) pwerau sy'n gosod dyletswyddau beichus ar y cyhoedd (e.e. gofyniad i adneuo symiau arian yn warant, neu derfynau amser byr iawn er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth);
- 9) pwerau sy'n cynnwys ystyriaethau o bwys arbennig nad ydynt yn dod o dan y penawdau uchod (e.e. pan fo'r Ddeddf alluogi yn gosod y diben yn unig a bod sylwedd y cynllun deddfwriaethol yn cael ei nodi mewn is-ddeddfwriaeth a wneir drwy arfer y pŵer).”

Fel rwy'n gobeithio y bydd y dadansoddiad sy'n dilyn yn dangos, lle mae cynigion ynglŷn ag is-ddeddfwriaeth yn y Bil Addysg Uwch (Cymru) yn bodloni unrhyw un o'r meini prawf uchod, byddant yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Ar y cyfan, fodd bynnag, ac fel yr eglurais wrth y Pwyllgor, â manylion ymarferol cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol drwyddo draw y mae deunydd pwnc yr is-ddeddfwriaeth arfaethedig yn ymdrin; mae'n debygol o gael ei diweddarau'n rheolaidd neu ei newid fel arall; a gallai amgylchiadau godi lle gallai fod rhaid deddfu'n gyflym.

Byddwn yn dadlau, felly, fod y Bil fel y'i drafftwyd yn caniatáu ar gyfer cydbwysedd priodol rhwng craffu gan y Cynulliad a defnydd effeithiol o amser y Cynulliad neu Bwyllgor.

Roedd yr Aelodau'n cwestiynu hefyd pam nad yw'r Bil wedi cael ei ddrafftio ar y dybiaeth y dylai fod dyletswydd i wneud rheoliadau lle gallai fod eu hangen. Dim ond pan fo'r rheoliadau dan sylw a'r ddyletswydd yn gyfyngedig iawn eu cwmpas y mae dyletswydd i wneud rheoliadau yn briodol. Rwy'n cychwyn hefyd o'r rhagdybiaeth mai dim ond i weithredu'r cynllun deddfwriaethol drwyddo draw neu fel arall pan fo'r angen am reoliadau wedi'i sefydlu ar ryw sail arall y dylai Llywodraeth bennu rheoliadau. Rwy'n cydnabod na fydd y system a sefydlir o dan y Bil, mewn nifer o achosion, yn gallu cyflawni'n effeithiol heb reoliadau yn eu lle. Er enghraifft, bydd angen gwneud rheoliadau sy'n rhagnodi'r terfyn ffioedd a'r disgrifiad o bersonau

cymhwysol a chysiau cymhwysol. Fodd bynnag, mae darpariaethau drafft eraill yn fwy caniatool eu natur er mwyn caniatáu gwneud rheoliadau lle gallant fod o gymorth i roi cyfundrefn newydd ar waith neu lle mae amgylchiadau neu brofiad yn dangos angen am reoliadau yn y meysydd hynny. Mae fy swyddogion wedi dadansoddi'r defnydd o'r termau "caiff" a "rhaid" yn y Bil o'r dechrau i'r diwedd. Mae'r dadansoddiad hwnnw wedi'i gynnwys fel atodiad at y llythyr hwn. Hyderaf y bydd y wybodaeth ychwanegol hon o gymorth.

Rhan 2: Cynlluniau ffioedd a mynediad

Adran 2: Cais gan sefydliadau am gymeradwyaeth CCAUC i gynlluniau ffioedd a mynediad

Mae'r adran hon yn caniatáu i gorff llywodraethu sefydliad o fath arbennig wneud cais i CCAUC am gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad. Mae adran 2(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch gwneud cais o dan yr adran hon. Wrth bennu y "caiff" Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan yr adran hon rydym wedi cymhwyso'r egwyddor na fyddwn yn deddfu oni bai fod hynny'n angenrheidiol. Os na chaiff rheoliadau eu gwneud ni fydd y ffaith honno'n rhwystro sefydliadau rhag gwneud cais i CCAUC am gymeradwyaeth i'w cynlluniau.

O dan y system gyfredol, caiff sefydliadau sy'n cael eu hariannu gan CCAUC wneud cais i CCAUC am gymeradwyaeth i gynllun ffioedd ond nid oes rheoliadau sy'n darparu ar gyfer gwneud ceisiadau o'r fath. Gall CCAUC ddarparu canllawiau i sefydliadau yngl n â'r materion y bydd yn eu hystyried wrth benderfynu ar geisiadau yngl n â chynlluniau (mae adran 34(3) o Ddeddf Addysg Uwch 2004 yn galluogi hyn) ac nid oes dim i atal CCAUC hefyd rhag darparu canllawiau anstatudol i sefydliadau yngl n â'r broses gwneud cais a darparu gwybodaeth ategol.

O dan y system reoleiddio newydd gallai CCAUC ddarparu gwybodaeth a chyngor i sefydliadau o dan adran 51(3) am y broses o wneud cais am gymeradwyaeth i gynlluniau ffioedd a mynediad, a'r wybodaeth y dylid ei chyflwyno fel rhan o'r cais. Felly, gallai sefydliadau gael eu gwneud yn ymwybodol gan CCAUC o'r broses a'r wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn cymeradwyo cynlluniau ffioedd a mynediad heb yr angen i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau. Os na wnaiff Gweinidogion Cymru reoliadau o dan yr adran hon, ni fydd hynny'n gadael CCAUC yn agored i her gyfreithiol. Fodd bynnag, ar ôl i'r system fod ar waith, pe bai un ai CCAUC neu sefydliadau yn nodi y gallai'r broses gwneud cais fod yn gliriach, byddai p er Gweinidogion Cymru o dan adran 2(4) yn golygu bod modd gwneud rheoliadau er mwyn darparu'r eglurder hwnnw. Er enghraifft, efallai y byddai'n fuddiol gwneud rheoliadau os bydd cyrff newydd yn ymuno â'r system nad ydynt wedi gwneud cais i CCAUC cyn hynny am gymeradwyaeth i gynllun ffioedd. Mae angen gwahaniaethu'n glir rhwng angen i wneud rheoliadau er mwyn i'r system weithio a defnydd dewisol o b er i wneud rheoliadau er mwyn i'r system weithio'n well. Mae'r

per i wneud rheoliadau yn adran 2(4) yn disgyn i'r ail gategori, felly cafodd y Bil ei ddrafftio fel bod modd i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau os byddant yn angenrheidiol.

Adran 3: *Dynodi darparwyr addysg uwch eraill*

Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi darparwr addysg uwch yng Nghymru sy'n elusen yn sefydliad at ddibenion y Bil, er na fyddai fel arall yn cael ei ystyried yn sefydliad. Bydd dynodiadau o'r fath yn sicrhau nad yw darparwyr addysg uwch nad ydynt efallai yn cael eu hystyried yn sefydliadau yn cael eu rhwystro rhag gwneud cais i CCAUC am gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad. Nid yw dynodi o dan adran 3 yn golygu y bydd darparwr sy'n elusen yn awtomatig yn dod o fewn y system reoleiddio newydd a sefydlir o dan y Bil. Ar ôl cael ei ddynodi'n sefydliad at ddibenion y Bil, bydd gofyn o hyd i ddarparwr o'r fath wneud cais i CCAUC am gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad, o dan adran 2 o'r Bil, er mwyn dod yn sefydliad sy'n cael ei reoleiddio. O ganlyniad, bydd angen i ddarparwyr o'r fath fodloni'r amodau yn adran 2 o'r Bil, sef ei fod yn sefydliad yng Nghymru, ei fod yn darparu cyrsiau addysg uwch a'i fod yn elusen.

Mae adran 3(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth, drwy reoliadau, ynghylch gwneud cais am ddynodiad, gwneud dynodiadau a'u tynnu'n ôl, yn cynnwys materion sydd i'w hystyried wrth benderfynu pa un ai i wneud dynodiad neu dynnu dynodiad yn ôl, ac effaith tynnu dynodiad yn ôl. Fodd bynnag, nid yw adran 3 yn dibynnu ar i reoliadau gael eu gwneud er mwyn iddi weithio. Gallai darparwyr addysg uwch gael eu dynodi'r sefydliadau gan Weinidogion Cymru heb wneud rheoliadau o dan adran 3(4) – nid oes unrhyw beth i rwystro darparwyr o'r fath rhag gwneud cais i Weinidogion Cymru am ddynodiad ac yn wir mae adran 3(1) yn darparu ar gyfer hynny.

Wrth bennu y "caiff" Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan yr adran hon rydym wedi cymhwyso'r egwyddor na fyddwn yn deddfu oni bai ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny. Mae'n debyg mai cyfyngedig fydd y nifer o ddarparwyr sy'n gwneud cais am ddynodiad o dan adran 3, yn enwedig yn y dyfodol agos, ac i gychwyn mae'n annhebygol y bydd angen gwneud rheoliadau. Fodd bynnag, bydd y per a nodir yn adran 3(4) yn golygu bod modd gwneud rheoliadau os byddant yn angenrheidiol. Hefyd, yn ôl y ddarpariaeth yn adran 3(3) mae darparwr sydd wedi'i ddynodi'n sefydliad i gael ei drin fel sefydliad at ddibenion y Bil oni chaiff y dynodiad ei dynnu'n ôl.

Adran 6: *Hybu cyfle cyfartal ac addysg uwch*

Mae'n ofynnol yn ôl adran 6(1) o'r Bil fod rhaid i gynllun ffioedd a mynediad gynnwys unrhyw ddarpariaethau a ragnodir sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal o ran mynediad at addysg uwch neu hybu addysg uwch. Mae'r ddarpariaeth hon yn

galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau. Mae gwybodaeth am y math o ddarpariaeth yn ymwneud â hybu cyfle cyfartal a hybu addysg uwch y caniateir ei chynnwys mewn rheoliadau wedi'i nodi ar wyneb y Bil yn adran 6(3).

Mae'r wybodaeth a'r blaenoriaethau yn gysylltiedig â hybu cyfle cyfartal a hybu addysg uwch yn debygol o newid dros amser law yn llaw â newidiadau i'r sector addysg uwch yng Nghymru a hefyd ddatblygiadau o ran tystiolaeth am effeithiolrwydd gweithgareddau ac ymyriadau y mae sefydliadau yn eu cynnwys yn eu cynlluniau ffioedd a mynediad. Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i'r newidiadau hyn yn rheolaidd drwy addasu'r gofynion sy'n cael eu gosod ar gynlluniau ffioedd a mynediad sefydliadau. Yn dyngedfennol, nid ydym yn gwybod eto beth gaiff ei nodi yng ngwerthusiad CCAUC o gynlluniau ffioedd a mynediad, felly mae angen yr hyblygrwydd i addasu'r wybodaeth a'r blaenoriaethau yn gysylltiedig â hybu mynediad i addysg uwch a hybu addysg uwch, o bryd i'w gilydd.

Ar sail cymhwysu canllawiau'r Cwnsler Cyffredinol y cynigiwyd bod rheoliadau sy'n cael eu gwneud o dan adran 6(1) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol. Ac ystyried y canllawiau hynny rwyf o'r farn nad yw'r pŵer i wneud rheoliadau o dan yr adran hon yn disgyn i unrhyw un o'r categorïau y dylai'r weithdrefn gadarnhaol fod yn gymwys iddynt. Mae cryn lawer o fanylion ynglŷn â darpariaethau y ceir eu rhagnodi mewn rheoliadau a wneir o dan adran 6(1) i'w gweld ar wyneb y Bil yn adrannau 6(3) a 6(4). Hefyd, mae adran 6(5) yn darparu ar gyfer rhai cyfyngiadau ar y gofynion y ceir eu cynnwys mewn rheoliadau. Rwyf o'r farn felly fod prif sylwedd y cynllun deddfwriaethol o ran cynnwys cynlluniau ffioedd a mynediad wedi'i nodi ar wyneb y Bil yn hytrach na chael ei neilltuo i is-ddeddfwriaeth. Bydd y rheoliadau'n darparu rhagor o fanylion ynghylch sut mae cynnwys gofynnol cynlluniau ffioedd a mynediad i gael ei gymhwyso yng nghydestun ystod ehangach o ffioedd hyfforddi nag o dan y gyfundrefn gyfredol. O ganlyniad mae rheoliadau sydd i gael eu gwneud o dan adran 6(1) yn addas ar gyfer y weithdrefn penderfyniad negyddol.

Rwy'n gobeithio y bydd y rheoliadau hyn ar gael ar ffurf ddrafft i alluogi Aelodau i graffu arnynt yng Nghyfnod 2. Y bwriad yw ymgynghori â rhanddeiliaid hefyd ynghylch y rheoliadau drafft ar yr adeg briodol.

Adran 7: *Cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad*

O dan adran 7 caiff CCAUC un ai gymeradwyo neu wrthod cais am gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad sefydliad. Mae adran 7(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynglŷn â'r materion sydd i gael eu hystyried gan CCAUC wrth benderfynu pa un i gymeradwyo ynteu wrthod cynllun.

Y bwriad yw y dylai fod gofyn i CCAUC ystyried ansawdd yr addysg yn y sefydliad; trefniadaeth ei faterion ariannol; a digonolrwydd y mesurau yr ymrwymir iddynt yn y

cynllun yn erbyn lefel arfaethedig y ffioedd hyfforddi. Mae'r gofynion hyn wedi'u bwriadu i sicrhau bod buddiannau darpar fyfyrwyr yn cael eu gwarchod a hefyd i sicrhau bod CCAUC yn mabwysiadu dull cymesur o gymeradwyo cynlluniau yn unol â lefel y ffioedd sy'n cael eu codi. Byddant hefyd yn rhoi syniad i sefydliadau sy'n gwneud cais o'r materion y bydd CCAUC yn eu pwysu a'u mesur wrth ystyried eu cynlluniau ffioedd a mynediad. Bydd hyn yn arbennig o fuddiol i ymgeiswyr newydd, sy'n gwneud cais am gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad am y tro cyntaf.

Ar sail cymhwyso canllawiau'r Cwnsler Cyffredinol y cynigiwyd bod rheoliadau sy'n cael eu gwneud o dan adran 7(3) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol. Rwyf o'r farn nad yw'r p e r i wneud rheoliadau o dan yr adran hon yn disgyn i unrhyw un o'r categorïau y dylai'r weithdrefn gadarnhaol fod yn gymwys iddynt. Nid wyf yn credu bod y rheoliadau hyn yn briodol ar gyfer y weithdrefn gadarnhaol gan mai â manylion ymarferol cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol drwyddo draw y maent yn ymdrin. Os cânt eu gwneud gallai fod angen eu diweddarau'n rheolaidd i adlewyrchu newidiadau yn y dirwedd addysg uwch. Mae'n werth nodi hefyd y gall CCAUC gymeradwyo neu wrthod cynlluniau ffioedd a mynediad heb i'r rheoliadau hyn gael eu gwneud.

Adran 8: *Cyhoeddi cynllun a gymeradwywyd*

Mae adran 8(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth, drwy rheoliadau, yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliad gyhoeddi cynllun ffioedd a mynediad wedi'i gymeradwyo. Mae adran 8(2) yn cadarnhau y caiff y rheoliadau hyn wneud darpariaeth ynghylch sut a phryd y mae cynllun ffioedd a mynediad wedi'i gymeradwyo i gael ei gyhoeddi. Mae adran 8 o'r Bil yn deillio o adran 34(6) o Ddeddf Addysg Uwch 2004 sy'n gwneud darpariaeth debyg er i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a all ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sy'n ddarostyngedig i gynllun wedi'i gymeradwyo gyhoeddi eu cynlluniau yn y modd sy'n cael ei ragnodi mewn rheoliadau. Felly, nid yw defnyddio rheoliadau i'r diben o'i gwneud yn ofynnol cyhoeddi cynlluniau wedi'u cymeradwyo yn beth newydd ac mae eisoes yn weithredol o dan y system gyfredol. Hefyd, gan fod sefydliadau yn cyhoeddi cynlluniau wedi'u cymeradwyo ar hyn o bryd ac yn gyfarwydd â'r angen i sicrhau bod y cynlluniau hynny'n cael eu gwneud yn hygyrch i fyfyrwyr ac eraill â diddordeb, efallai na fydd yn angenrheidiol gwneud y rheoliadau hyn. Fodd bynnag, os bydd adborth gan CCAUC, myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill yn dangos bod problem, bydd y p e r hwn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddeddfu os bydd hynny'n angenrheidiol.

Adran 9: *Amrywio cynlluniau*

Mae adran 9(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ganiatáu amrywio cynlluniau sydd wedi'u cymeradwyo yn unol â'r weithdrefn a bennir mewn rheoliadau. Rhaid i'r rheoliadau ddarparu mai dim ond os caiff amrywiad ei

gymeradwyo gan CCAUC y mae i gymryd effaith. Bydd y pŵer hwn yn berthnasol pan fydd sefydliad, ar ôl i CCAUC gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad, am amrywio'i gynllun cymeradwy. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer tebyg ar hyn o bryd yn adran 36 o Ddeddf Addysg Uwch 2004.

Er y byddai Gweinidogion Cymru'n gallu dyroddi canllawiau i CCAUC (yn unol â'r ddarpariaeth yn adran 46 o'r Bil), rwyf o'r farn fod amrywio cynlluniau sydd wedi'u cymeradwyo yn fater mwy addas i reoliadau na chanllawiau. Byddai'n ofynnol i CCAUC ystyried canllawiau o'r fath, ond gallai wyro oddi wrth ganllawiau felly pe bai ganddo reswm da i wneud hynny. Mae'r bensaerniaeth ddeddfwriaethol gyfredol o dan Ddeddf Addysg Uwch 2004 yn defnyddio rheoliadau i'r diben o ddarparu sicrwydd ynghlŷn â'r weithdrefn a'r prosesau sy'n gysylltiedig ag amrywio cynllun ffioedd sydd wedi'i gymeradwyo a'm bwriad i yw gwneud yr un fath yng nghyswllt amrywio cynlluniau ffioedd a mynediad o dan y system reoleiddio newydd.

Y bwriad polisi yw darparu gweithdrefn effeithiol ar gyfer amrywio cynlluniau sydd wedi'u cymeradwyo yn ystod oes y cynllun. Mae amrywiadau i gynlluniau sydd wedi'u cymeradwyo yn fwy tebygol o godi ystyriaethau ymarferol ynghlŷn â sut y mae sefydliad yn gwneud cais am amrywiad a sut mae CCAUC yn ystyried amrywiad. Fy marn i yw bod rheoliadau'n well ffordd o ddelio â materion felly na chanllawiau gan eu bod yn rhoi sicrwydd. Nid yw canllawiau'n darparu'r un lefel o sicrwydd; tra mae rhaid i sefydliadau ystyried canllawiau nid oes rheidrwydd arnynt i'w dilyn ym mhob sefyllfa. Er y gallai sefydliadau wneud cais am gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad, heb i'r rheoliadau hyn fod yn eu lle ni allent wneud cais i amrywio cynllun y cytunwyd arno eisoes yn ystod oes y cynllun hwnnw.

Rhan 4: Materion ariannol sefydliadau rheoleiddiedig

I osgoi amwysedd rwyf am ei gwneud yn glir nad oes pwerau i wneud rheoliadau yn deillio o Ran 4 o'r Bil. Ni cheir rheoliadau yn gefn i swyddogaethau CCAUC i baratoi, ymgynghori ynghylch, dyroddi ac adolygu'r cod rheolaeth ariannol arfaethedig yn gyson. Ar hyn o bryd mae CCAUC yn datblygu, yn ymgynghori ynghylch ac yn dyroddi memorandwm ariannol cymwys i sefydliadau sy'n cael eu hariannu. O dan y fframwaith rheoleiddio newydd bydd yn ofynnol i CCAUC ymgynghori â phob sefydliad sy'n cael ei reoleiddio ynghylch Cod drafft i reoli materion ariannol a bydd gofyn iddo hefyd ddarparu crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw pan fydd yn cyflwyno'r cod drafft i Weinidogion Cymru am gymeradwyaeth.

Rhan 5: Tynnu cymeradwyaeth cynllun yn ôl

Adran 36: *Hysbysiad ynghylch gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd*

O dan y system reoleiddio arfaethedig, os yw CCAUC wedi'i fodloni bod sefydliad rheoleiddiedig wedi methu â chydymffurfio â'r terfyn ffioedd cymwys neu â darpariaethau cyffredinol cynllun ffioedd a mynediad y sefydliad sydd wedi'i gymeradwyo, neu wedi methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd gan CCAUC yngl n ag ansawdd ei addysg neu'i reolaeth ariannol, caiff CCAUC roi hysbysiad i'r sefydliad na fydd yn cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd cyn diwedd y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad. Mae'r swyddogaeth hon yn wahanol i'r swyddogaeth cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad o dan adran 4 o'r Bil ac mae'n un o ddewislen o gosbau sydd ar gael i CCAUC pe bai sefydliad yn methu â chydymffurfio â gofynion penodedig y fframwaith rheoleiddio newydd. Nodir ar wyneb y Bil yn adran 36(3) o dan ba amodau y caiff CCAUC roi hysbysiad i gorff llywodraethu sefydliad rheoleiddiedig.

Mae adran 36(7) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch hysbysiadau a phenderfyniadau CCAUC i beidio â chymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ynghylch y cyfnod a bennir mewn hysbysiad (ni fydd CCAUC yn cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd yn ystod y cyfnod hwnnw), y materion sydd i'w hystyried gan CCAUC wrth benderfynu pa un i roi hysbysiad neu ei dynnu'n ôl, a'r weithdrefn sydd i'w dilyn os caiff hysbysiad o'r fath ei dynnu'n ôl. Ni ellir defnyddio rheoliadau a wneir o dan adran 36(7) i ychwanegu at yr amodau a bennwyd yn adran 36(3). Mae hyn yn golygu nad yw'r rheoliadau arfaethedig yn gallu newid y sefyllfa parthed o dan ba amodau y caiff CCAUC ddyroddi hysbysiad ynghylch gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd.

Disgwylir y byddai'r materion a gâi eu hystyried gan CCAUC wrth benderfynu pa un i roi hysbysiad o'i fwriad i wrthod neu gymeradwyo cynllun newydd yn cynnwys efallai ystyried difrifoldeb y methiant i gydymffurfio a pha un a fyddai modd gwahanol o weithredu yn briodol. O ran tynnu hysbysiad yn ôl, disgwylir y byddai'r materion a gâi eu hystyried gan CCAUC yn cynnwys efallai unrhyw weithredu lliniarol gan y sefydliad (ar ôl dyroddi'r hysbysiad) er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r amodau yn adran 36(3) o'r Bil. Rwyf o'r farn fod y materion hyn yn briodol i'w cynnwys mewn rheoliadau i'w gwneud drwy'r weithdrefn negyddol gan mai â manylion technegol a gweithdrefnol yngl n â dyroddi hysbysiadau o dan adran 36 o'r Bil y mae a wnelont. Bydd angen diweddarau'r materion hyn ymhen amser, yn sgil newidiadau i'r sector addysg uwch yng Nghymru ac mewn ymateb i adborth gan CCAUC yngl n â gweithrediad ei bwerau gorfodi. Er enghraifft, efallai y bydd yn briodol cynyddu neu gwtogi'r cyfnod hwyaf pryd y caiff hysbysiad yn gwrthod cymeradwyo cynllun newydd fod mewn grym, yn dilyn trafodaethau ac ymgysylltu â CCAUC ynghylch effeithiolrwydd hysbysiadau o'r fath.

Rwyf hefyd am wneud y sefyllfa o ran y ddarpariaeth yn adran 36(7)(a) yn glir. Dywed yr adran hon:

*“(7) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch –
(a) y cyfnod y caniateir ei bennu mewn hysbysiad o dan yr adran hon;”*

Mae'r cymal cyntaf, lle y defnyddir “caiff”, yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch unrhyw un o'r materion a bennir yn adran 36(7) (a) – (c). Mae effaith “caniateir” yn yr ail gymal yn gwbl wahanol yn ei gyd-destun. Nid caniatáu i hysbysiad bennu cyfnod y mae gan fod hysbysiad yn ofynnol i wneud hynny yn rhinwedd is-adran 36(2). Y diben yma yw rhoi disgrisiwn i Weinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i hysbysiad bennu cyfnod penodol, neu ei gwneud yn ofynnol i hysbysiad bennu un cyfnod o fewn ystod o gyfnodau a ganiateir, neu roi disgrisiwn i CCAUC bennu cyfnodau yn unol â fformiwlâu penodol. Mae'n cyfleu bod amryw o ffyrdd o bennu hysbysiad yn unol â'r rheoliadau. Mae'r defnydd o'r geiriau “caiff” a “caniateir” yn gwbl briodol yma ac nid yw'n arwain at unrhyw broblemau mewn perthynas â chymhwyso'r p er hwn i wneud rheoliadau.

Adran 37: *Dyletswydd i dynnu cymeradwyaeth yn ôl*

Mae'n ofynnol o dan Adran 37 i CCAUC dynnu ei gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad yn ôl drwy roi hysbysiad i sefydliad os yw'n fodlon fod y sefydliad wedi peidio ag: (a) bod yn sefydliad yng Nghymru; (b) darparu addysg uwch; neu (c) bod yn elusen.

O dan adran 37(2), caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth mewn rheoliadau ynghylch y materion sydd i'w hystyried gan CCAUC wrth benderfynu pa un i dynnu cymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad yn ôl a'r weithdrefn i'w dilyn mewn cysylltiad â rhoi hysbysiad fod cynllun o'r fath i gael ei dynnu'n ôl. Mae adran 37(3) yn gwneud darpariaeth i'r rheoliadau ddiwygio neu gymhwyso (gydag addasiadau neu hebddynt) y gofynion gweithdrefnol yn ymwneud â hysbysiadau rhybuddio a sylwadau (fel y nodwyd yn adrannau 40 i 43) o ran unrhyw rybudd a ddyroddir o dan adran 37.

O dan adran 37, dim ond pan fydd CCAUC wedi ei fodloni nad yw sefydliad bellach o fewn adran 2(3) o'r Bil y mae'n ofynnol i CCAUC dynnu'r gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad yn ôl. O ganlyniad, nid yw'r adran hon yn gymwys pan aiff rhywbeth o'i le o dan adran 36 ac nid yw'n gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â swyddogaeth CCAUC o ddyroddi hysbysiad o fwriad i wrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd.

Nid oes rheoliadau'n ofynnol o dan adran 37 er mwyn i'r adran fod yn weithredol. Bydd CCAUC yn gallu bodloni'i hun pa un a yw sefydliad yn dal yng Nghymru ai peidio, pa un a yw'n dal i ddarparu addysg uwch a pha un a yw'n dal yn elusen heb reoliadau. Fodd bynnag, os bydd CCAUC, sefydliadau neu randdeiliaid eraill o'r farn, o ganlyniad i weithredu'r system, y byddai'r broses er tynnu cymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad yn ôl yn gweithio'n fwy effeithlon neu effeithiol gyda'r

materion wedi'u nodi mewn rheoliadau, mae'r pŵer yn adran 37(2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddeddfu pe bai hynny'n angenrheidiol. Rwy'n cychwyn, fodd bynnag, o'r egwyddor o beidio â deddfu onid oes angen i wneud hynny wedi'i brofi. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn darparu'r hyblygrwydd angenrheidiol mewn proses nad yw wedi cael ei gweithredu gan CCAUC cyn hyn.

Materion nad ydynt yn dod o fewn cwmpas y Bil

Yn olaf, efallai y byddai'n fuddiol pe bawn yn egluro'r sefyllfa o ran dynodi cyrsiau fesul achos unigol. Nid yw'r Bil yn darparu ar gyfer dynodi cyrsiau'n awtomatig na dynodi cyrsiau penodol. Fy mwriad yw ymgynghori ynghylch gofynion newydd o ran dynodi cyrsiau penodol gyda'r nod o gyflwyno gwiriadau sicrhau ansawdd manwl a gwiriadau trylwyr i iechyd ariannol sefydliadau sy'n darparu cyrsiau o'r fath. Bydd unrhyw drefniadau newydd i ddynodi cyrsiau penodol yn cael eu symud ymlaen drwy bwerau presennol Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Nid oes angen deddfwriaeth newydd felly.

Hyderaf fod y wybodaeth hon o gymorth a'i bod yn rhoi eglurder i Aelodau. Byddaf yn ysgrifennu ymhellach maes o law i drafod materion y mae'r Aelodau wedi gofyn am wybodaeth bellach arnynt. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn hefyd at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg er gwybodaeth.

Yn gywir,



Huw Lewis AC / AM

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills

Defnyddio “caiff”, “caniateir” a “rhaid” ar gyfer pwerau gwneud rheoliadau

Rhan 2 – Cynlluniau ffioedd a mynediad

Adran 2

A.2(4): “Caiff” rheoliadau wneud darpariaeth. Mae hyn yn ymwneud â gwneud cais am gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad. Byddai'r system yn gweithredu heb y rheoliadau hyn (er nad mor effeithlon o bosibl) oherwydd nid yw'n ofynnol cael rheoliadau, mewn gwirionedd, er mwyn gwneud y ddarpariaeth yn weithredol; gallai corff llywodraethu sefydliad o fewn a.2(3) wneud cais i CCAUC hyd yn oed os nad oedd rheoliadau yn eu lle. Rydym yn credu na fyddai ond yn briodol cynnwys dyletswydd pan fo'r ddyletswydd a'r rheoliadau ill dau yn gyfyng eu cwmpas. Felly, rydym o'r farn nad oes angen newid i “rhaid” oherwydd bod y pŵer i wneud rheoliadau yn a.2(4) yn cwmpasu amrywiaeth o faterion.

Adran 3

A.3(4): Mae'r adran hon yn ymwneud â dynodi darparwyr AU elusennol eraill yng Nghymru na fyddent fel arall yn cael eu dynodi yn “sefydliadau”. Ystyr hyn yw y bydd sefydliadau dynodedig yn cael eu cynnwys gan ddarpariaethau'r Bil a'r rheoliadau a wneir o dan y pwerau sydd ynddo. Gallai hyn, er enghraifft, fod yn ddarparwr sy'n darparu cyrsiau addysg uwch eraill ar lefel is ar y fframwaith credydau a chymwysterau er nad yw'n darparu cyrsiau gradd. Fodd bynnag, efallai y bydd am i'r cyrsiau hynny gael eu dynodi'n awtomatig gan reoliadau cymorth i fyfyrwyr (at ddibenion cymorth i fyfyrwyr gan Weinidogion Cymru) a gallu gwneud cais am gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad. Byddai'r system yn gweithredu heb y rheoliadau hyn (er nad mor effeithlon o bosibl). Felly, mae rheoliadau'n darparu'r cyfrwng ar gyfer cynnwys manylion atodol sy'n ymwneud â gwneud cais, ond nid ydynt yn ofynnol, mewn gwirionedd, er mwyn gwneud y ddarpariaeth yn weithredol oherwydd y gellid gwneud cais am ddynodiad heb i unrhyw reoliadau gael eu gwneud. Ar y sail hon, rydym yn credu nad oes angen cynnwys “rhaid”. Fel y gwelwyd gydag a.2(4) rydym hefyd o'r farn na fyddai ond yn briodol gosod dyletswydd i wneud rheoliadau pan fo cwmpas y rheoliadau yn gyfyng. Yn yr achos hwn, gallai cwmpas y rheoliadau y gellid eu gwneud o dan a.3(4) fod yn eang o bosibl ac felly ni fyddai'n agored i'w droi yn ddyletswydd (oherwydd gallai'r system ar gyfer dynodi, mewn egwyddor, fod yn weithredol heb wneud rheoliadau o gwbl).

Adran 4

A.4(2): Mae'r is-adran yn mabwysiadu'r ffurf “a ragnodir” ac yn ymwneud â'r cyfnod hwyaf y mae'r cynlluniau ffioedd a mynediad yn ymwneud ag ef. Er y gallai'r system weithredu heb y rheoliadau hyn, rydym yn cydnabod y byddai rheoliadau sy'n pennu terfyn o'r fath yn gwneud i'r system weithredu'n fwy effeithiol. Yn yr achos hwn rydym o'r farn bod yna ofyniad dealedig i wneud rheoliadau. Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod, er mwyn i'r system weithio'n effeithiol, fod angen rheoliadau. Ni fyddai, felly, o fudd i Weinidogion Cymru fethu â dwyn rheoliadau o'r fath ymlaen. O ganlyniad, nid oes angen newid y ffurf “a ragnodir” bresennol i gyfeirio at “rhaid i reoliadau wneud darpariaeth”.

Adran 5

Trosolwg: mae adran 5 yn darparu ar gyfer rheoliadau i nodi cyrsiau a phersonau cymhwysol, ac i bennu'r uchafswm y gellir ei bennu mewn cynllun ffioedd a mynediad, ynghyd â sut y caiff ffioedd a dalwyd eu trin yn achos cyrsiau sydd wedi eu breinio. Gyda'i gilydd bydd y rheoliadau hyn yn ffurfio sylfaen y weithdrefn reoleiddio sydd wedi ei chynnwys yn y Bil.

A.5(2)(b): Mae'r paragraff yn mabwysiadu'r ffurf "rhagnodedig". Mae hyn yn ymwneud â'r disgrifiadau o gwrs cymhwysol. Ni allai'r system hon weithredu'n briodol heb y rheoliadau hyn. Felly, mae gofyniad dealedig ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ac, o ganlyniad, nid oes angen newid y ffurf "rhagnodedig" i gyfeirio at "rhaid i reoliadau wneud darpariaeth". Pe bai Gweinidogion Cymru yn cychwyn a.5(2)(b) heb unrhyw fwriad i wneud rheoliadau cyrsiau cymhwysol, gallai rhesymoledd fod yn fater sy'n dod i'r wyneb gan na fyddai unrhyw ffordd o wybod pa gyrsiau sy'n gyrsiau cymhwysol. O dan y gyfundrefn bresennol gwnaed rheoliadau cyrsiau cymhwysol ac nid oes unrhyw reswm pam na fyddai Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau o'r fath o dan y ddarpariaeth hon pe bai'n cael ei deddfu.

A.5(3): Mae'r is-adran yn mabwysiadu'r ffurf "a ragnodir". Mae hyn yn ymwneud â'r rhagnodiad o "uchafswm". Ni allai'r system hon weithredu'n effeithiol heb y rheoliadau hyn. Mae yna ofyniad dealedig i wneud rheoliadau ac, o ganlyniad, nid oes angen newid y ffurf "a ragnodir" i gyfeirio at "rhaid i reoliadau wneud darpariaeth". Pe bai Gweinidogion Cymru yn cychwyn a.5(2)(a) heb unrhyw fwriad i wneud darpariaeth am uchafswm ffioedd, ni fyddai'r system cynllun ffioedd a mynediad yn gweithredu'n briodol gan na fyddai modd cyflwyno ceisiadau am gymeradwyaeth i gynlluniau ffioedd a mynediad heb wybod beth yw'r uchafswm.

A.5(5): Mae'r is-adran yn mabwysiadu'r ffurf "a ragnodir". Mae'n ymwneud â disgrifiadau o berson cymhwysol. Ni allai'r system weithredu'n briodol heb y rheoliadau hyn. Mae gofyniad dealedig i wneud rheoliadau ac, o ganlyniad, nid oes angen newid y ffurf "a ragnodir" i gyfeirio at "rhaid i reoliadau wneud darpariaeth". Pe bai Gweinidogion Cymru yn cychwyn a.5(2)(a) ond heb wneud rheoliadau personau cymhwysol, ni fyddai'r system cynllun ffioedd a mynediad yn gweithredu'n briodol gan na fyddai modd gwybod pwy sy'n berson cymhwysol at ddiben a.5(2)(a).

S.5(9): Caiff rheoliadau wneud darpariaeth mewn cysylltiad â ffioedd sydd i'w trin fel pe baent wedi eu talu i ddarparwr sydd â chynllun ffioedd a mynediad a gymeradwywyd yn ei le, yn hytrach nag i berson arall e.e. eu talu i'r sefydliad sy'n freiniwr yn hytrach na'r sefydliad sydd wedi ei freinio. Rydym yn cydnabod y gall gwahanol drefniadau breinio fodoli a gall rhan o'r ffioedd, neu'r ffioedd cyfan, a godir am gwrs cymhwysol, fod yn daladwy i sefydliad sy'n bartner. Bydd rheoliadau yn sicrhau nad yw'r cyfanswm a delir gan fyfyrwr yn mynd uwchlaw uchafswm y terfyn ffioedd, hyd yn oed pan delir y ffioedd i ddau sefydliad gwahanol. Gallai'r system barhau i weithredu heb y rheoliadau hyn, ond bwriedir, fel mater o bolisi, ddwyn rheoliadau o'r fath ymlaen er mwyn diogelu buddiannau myfyrwyr.

Adran 6

A.6(1): Mae'r adran hon yn mabwysiadu'r ffurf "a ragnodir" ac yn ymwneud â chynnwys cynlluniau ffioedd a mynediad sy'n ymwneud â chyfle cyfartal neu hybu addysg uwch. Er y gallai'r system weithredu heb y rheoliadau hyn, rydym yn cydnabod y byddai'n gweithredu mewn ffordd sydd dipyn gwell gyda rheoliadau yn eu lle, yn nodi pa bethau y dylid eu cynnwys mewn cynllun ffioedd a mynediad. Yn yr achos hwn, byddem yn dadlau bod gofyniad dealedig i wneud rheoliadau ar y sail

eu bod yn rhan o'r sylfaen sy'n ofynnol i wneud y system newydd yn effeithiol. O ganlyniad, rydym o'r farn nad oes angen newid y ffurf "a ragnodir" i gyfeirio at "rhaid i reoliadau wneud darpariaeth". Yn ogystal, o ystyried cwmplas ac ystod y materion y gellid eu cynnwys yn y rheoliadau hyn, a'r ffaith y gall fod angen eu diweddarau o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol i ddemograffeg newidiol y boblogaeth fyfyrwyr yng Nghymru, nid ydym yn sicr o gwbl a fyddai dyletswydd ddatganedig yn briodol.

Adran 7

A.7(3): Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y materion y mae rhaid i CCAUC eu ystyried wrth benderfynu pa un ai i gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad ai peidio. Gall y system ar gyfer cymeradwyo neu wrthod weithredu heb i reoliadau fod yn eu lle (er nad mor effeithlon o bosibl). Bydd rheoliadau yn darparu manylion am y ffactorau atodol y mae rhaid i CCAUC eu hystyried yng ngoleuni'r ystod eang posibl o ddarparwyr a fydd yn gwneud cais am gymeradwyaeth o bosibl. O ystyried yr ystod bosibl o ddarparwyr a fydd yn gallu gwneud cais i CCAUC o bosibl a natur newidiol y sector, mae'n bosibl y bydd angen gwneud newidiadau yn eithaf cyflym i'r ffactorau y mae CCAUC yn eu hystyried. Gallai'r system, fodd bynnag, weithredu heb reoliadau, gyda CCAUC yn penderfynu pa un ai i gymeradwyo cynlluniau ffioedd a mynediad ai peidio, er enghraifft drwy ystyried canllawiau a ddarperir gan Weinidogion Cymru o dan adran 46. Ar y sail hon rydym yn credu ei bod yn briodol defnyddio "caiff" yn lle "rhaid".

Adran 8

A.8(1): Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu gyhoeddi cynllun y sefydliad a gymeradwywyd. Bydd y system yn gweithredu heb y rheoliadau hyn, ac o ganlyniad rydym o'r farn bod "caiff" yn briodol yn y cyd-destun hwn. Mewn unrhyw achos, mae'r pŵer presennol yn adran 34(6) o Ddeddf Addysg Uwch 2004 sy'n ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi cynlluniau wedi ei ffurfio fel "caiff" ac felly byddai'n ymddangos yn rhyfedd i wyro o'r ffurf hon, o ystyried bod y system bresennol wedi gweithio'n effeithiol yn hyn o beth. Yn adran 8(1) defnyddir "caiff" i olygu caniatâd; "caiff" Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau. Fodd bynnag, yn adran 8(2) defnyddir "caniateir" i olygu'r posibilrwydd y "caniateir" i reoliadau wneud darpariaeth ynghylch sut y mae'r cynllun i'w gyhoeddi.

Adran 9

S.9(1): Caiff rheoliadau ddarparu i gynllun a gymeradwywyd gael ei amrywio. Mae'r pŵer hwn yn adlewyrchu pwerau tebyg yn Neddf Addysg Uwch 2004 (adran 36) sydd wedi eu ffurfio fel "caiff", felly byddai'n ymddangos bod unrhyw newid i "rhaid" yn ddiangen. Er y byddai'r system newydd ar gyfer cymeradwyo cynlluniau ffioedd a mynediad yn gweithredu heb y rheoliadau hyn, mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu sicrhau parhad yn y system drwy ddwyn rheoliadau ymlaen o dan yr adran newydd hon i alluogi sefydliadau i wneud cais i amrywio cynllun y cytunwyd arno eisoes yn ystod oes y cynllun hwnnw. Mae rheoliadau (yn hytrach na chanllawiau o dan a.46) yn fwy priodol gan fod rheoliadau yn gallu delio â materion ymarferol o ran sut y gallai sefydliad wneud cais am amrywiad a sut y mae CCAUC yn ystyried amrywiad, tra bo canllawiau yn fwy addas ar gyfer materion sy'n ymwneud ag arfer gorau. Mae'r defnydd o reoliadau i ganiatáu amrywiad (yn hytrach na phŵer datganedig ar wyneb y Bil) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb yn brydlon i unrhyw

newidiadau yn y sector, ac os yw'n briodol, tynnu'n ôl gallu sefydliadau i amrywio cynlluniau a gymeradwywyd.

Adran 11

A.11(5): Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch sut a phryd y mae CCAUC i roi copi o gyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu i Weinidogion Cymru, ac ynghylch sut a phryd y mae rhaid i CCAUC gyhoeddi'r cyfarwyddyd. Bydd y manylion sydd wedi eu cynnwys mewn rheoliadau o dan yr adran hon yn rhai gweinyddol a thechnegol eu natur a gall y gofynion newid gydag amser, er enghraifft gyda datblygiadau i arferion gwaith CCAUC neu ddatblygiadau technolegol. Byddai'r system yn parhau i weithredu heb y rheoliadau hyn. Bydd y defnydd o reoliadau, serch hynny, yn diogelu'r system at y dyfodol, gan alluogi i ddiwygiadau gael eu gwneud ynghylch sut a phryd y mae CCAUC i gyhoeddi cyfarwyddyd o'r fath yng ngoleuni profiad o weithredu'r system newydd. Bydd y cyfarwyddydau o ddiddordeb i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr. Bydd y defnydd o reoliadau yn gymorth i sicrhau bod hyblygrwydd o ran galluogi mynediad iddynt.

Adran 13

A.13(1): Caiff rheoliadau wneud darpariaeth o ran y camau sydd i'w cymryd gan CCAUC pan fo sefydliadau rheoleiddiedig wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol eu cynllun a gymeradwywyd. Mae hyn yn ymwneud â sefydliadau yn cydymffurfio â'u cynlluniau ffioedd a mynediad. Mae gofynion craidd cynlluniau ffioedd a mynediad wedi eu nodi yn adran 6. Mae'r adran hon yn darparu'r hyblygrwydd i ddelio â gorfodi'r agwedd, nad yw'n agwedd safonol, ar y cynlluniau ffioedd a mynediad. Er enghraifft, caiff rheoliadau roi pŵer i CCAUC gyfarwyddo corff llywodraethu sefydliad i gymryd camau i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun a gymeradwywyd. Mae rheoliadau yn darparu dull ar gyfer diffinio'r hyn sy'n gyfystyr â methu â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol cynllun a gymeradwywyd. Byddai'r system yn gweithredu heb y rheoliadau hyn. Gan fod angen i'r rheoliadau fod yn rhai ymatebol a bod angen iddynt allu cwmpasu nifer o feysydd, rydym o'r farn bod "caiff" yn briodol yn y cyd-destun hwn. Oherwydd y caiff rheoliadau o dan adran 13 ddiwygio'r Bil, mae'r weithdrefn gadarnhaol yn briodol.

Rhan 3 – Ansawdd yr addysg

Adran 17

A.17(4): Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch yr amgylchiadau pan fo person i'w drin (neu nad yw i'w drin) fel person sy'n gyfrifol am ddarparu cwrs. Y sail resymegol dros y pŵer hwn yw galluogi Gweinidogion Cymru i fabwysiadu dull hyblyg o weithredu er mwyn eu galluogi i ymateb i newidiadau yn nifer y cyrsiau breiniol a/neu ddull o ddarparu cyrsiau o'r fath. Mae'r datganiad o fwriad y polisi yn rhoi enghraifft o eithrio tiwtoriaid unigol sy'n helpu i ddarparu cyrsiau ar ran sefydliadau rheoleiddiedig. Gallai'r rheoliadau gadarnhau na ddylai unigolion o'r fath gael eu trin fel darparwyr allanol at ddibenion asesu ansawdd. Bydd y rheoliadau hyn yn gyfyng eu cwmpas ac yn dechnegol eu natur. Byddai'r system yn gweithredu heb y rheoliadau hyn, ac o ganlyniad, mae'r defnydd o "caiff" yn briodol yn y cyd-destun hwn.

Rhan 5: Cynlluniau ffioedd a mynediad: tynnu cymeradwyaeth yn ôl etc

Adran 36

A.36(7): Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y cyfnod y caniateir ei bennu mewn hysbysiad sy'n gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd; y materion sydd i'w hystyried gan CCAUC wrth benderfynu pa un ai i roi hysbysiad neu ei dynnu'n ôl; a'r weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â thynnu hysbysiad yn ôl. Gydag amser, efallai y bydd angen amrywio'r rheoliadau a wneir o dan yr adran hon, er enghraifft drwy bennu cyfnod hysbysu gwahanol, nad yw'n bosibl i CCAUC gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad ynddo, neu drwy bennu materion y mae rhaid i CCAUC eu hystyried wrth benderfynu pa un ai i roi hysbysiad neu ei dynnu'n ôl, ynghyd ag elfennau gweithdrefnol penodol sy'n gysylltiedig â phenderfyniad gan CCAUC i beidio ag adnewyddu cynllun ffioedd a mynediad. Byddai'r system yn gweithredu heb y rheoliadau hyn, felly rydym o'r farn y byddai "caiff" yn hytrach na "rhaid" yn briodol yma.

Adran 37

A.37(2) a (3): Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y materion sydd i'w hystyried gan CCAUC wrth wneud penderfyniad nad yw sefydliad bellach o fewn a.2(3) a'r weithdrefn sydd i'w dilyn wrth roi hysbysiad tynnu cymeradwyaeth yn ôl. Mae a.37(1) yn darparu bod rhaid i CCAUC dynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad sefydliad pan fo CCAUC wedi ei fodloni nad yw'r sefydliad bellach o fewn adran a.2(3). Mae'r defnydd o "rhaid" yma yn briodol gan ei fod yn nodi'r camau y mae rhaid i CCAUC eu cymryd os yw CCAUC wedi ei "fodloni" nad yw sefydliad rheoleiddiedig bellach o fewn a.2(3). Fodd bynnag, "caiff" rheoliadau o dan yr adran hon nodi'r materion y dylai CCAUC eu hystyried wrth benderfynu pa un a yw sefydliad yn parhau i fod o fewn a.2(3), er enghraifft penderfyniadau'r Comisiwn Elusennau pan fo CCAUC yn credu nad oes gan y sefydliad statws elusennol bellach. Caiff rheoliadau hefyd wneud darpariaeth ynghylch y gofynion gweithdrefnol mewn cysylltiad ag a.37(2)(b) drwy ddiwygio neu gymhwysu (gydag addasiadau neu hebddynt) adrannau 41, 42 a 43 gan alluogi sefydliadau i droi at broses a ddiffiniwyd yn achos bwriad i dynnu cynllun ffioedd a mynediad yn ôl. Rydym o'r farn bod y cydbwysedd rhwng "rhaid" a "caiff" yn briodol yn yr adran hon o ystyried y bydd rheoliadau yn nodi'r gofynion gweithdrefnol, a gellir eu diwygio yng ngoleuni profiad o weithredu'r system newydd.

Adran 38

A.38(3): Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y materion sydd i'w hystyried gan CCAUC wrth benderfynu pa un ai i roi hysbysiad yn tynnu cymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad yn ôl. Byddai'r system yn gweithredu heb reoliadau o ystyried bod yr amodau, a all fod yn sail i benderfyniad CCAUC i dynnu cymeradwyaeth i gynllun yn ôl, wedi eu nodi ar wyneb y Bil (a.38(2)). Fodd bynnag, bydd rheoliadau yn ychwanegu manylion atodol drwy nodi'r ffactorau y mae rhaid i CCAUC eu hystyried wrth benderfynu pa un ai i roi hysbysiad, ond nid yw'n angenrheidiol cael rheoliadau i weithredu'r adran. Diben rheoliadau yw darparu manylion gan nodi'r ffactorau i'w hystyried gan CCAUC wrth arfer ei ddisgresiwn. Ar y sail hon, rydym yn credu bod y defnydd o'r gair "caiff" yn gwbl briodol.

Adran 39

A.39(2): Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch sut a phryd y mae CCAUC i roi copi o hysbysiad o dan adran 36, 37 neu 38 i Weinidogion Cymru, ac ynghylch sut a phryd y mae rhaid i CCAUC gyhoeddi hysbysiad o'r fath. Mae'n briodol ei gwneud yn ofynnol i CCAUC gymryd y camau hyn er mwyn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn parhau i fod â throsolwg o'r sector. Byddai'r rheoliadau

yn gwbl weithdrefnol eu natur, gan bennu'r amseriad i CCAUC ddarparu hysbysiadau i Weinidogion Cymru, a lle y dylid cyhoeddi'r hysbysiadau. Gan ystyried y ffaith bod y gofyniad i gyhoeddi ar wyneb y Bil ac y byddai'r system yn gweithredu heb y rheoliadau hyn, rydym o'r farn y dylai'r pŵer i wneud rheoliadau barhau fel "caiff".

Adran 41

A.41(2)(d): "unrhyw ddarpariaeth a wneir drwy reoliadau" o ran y cyfnod y mae sylwadau i'w cyflwyno ynddo, a'r ffordd y maent i'w cyflwyno, mewn ymateb i hysbysiad rhybuddio arfaethedig. Darpariaethau gweinyddol a thechnegol yw'r rhain y gall fod angen eu diweddarau o bryd i'w gilydd yng ngoleuni datblygiadau technolegol a phrofiad o weithredu'r system. Fodd bynnag, bydd y system yn gweithredu heb i'r rheoliadau hyn gael eu gwneud. Ar y sail hon rydym yn credu bod y defnydd o ddisgresiwn sy'n cyfateb i "caniateir" yn hollol briodol.

Adran 42

A.42(c): Mae'r adran yn mabwysiadu'r ffurf "rhagnodedig". Gall rheoliadau ragnodi gwybodaeth ychwanegol sydd i'w chynnwys mewn hysbysiad neu gyfarwyddyd a ddyroddir o dan a.7(1)(b); a.11; a.19; a.32; a.36; neu a.38. Mae a.42(a) a (b) eisoes yn darparu bod rhaid i CCAUC gynnwys rhesymau dros ddyroddi hysbysiad neu gyfarwyddyd, a hysbysu'r corff llywodraethu y caiff wneud cais am adolygiad o'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd. Byddai rheoliadau yn darparu i wybodaeth atodol benodol gael ei chynnwys, megis hysbysu sefydliad rheoleiddiedig y caiff copi o hysbysiad neu gyfarwyddyd ei roi i Weinidogion Cymru a'i gyhoeddi. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i sicrhau bod datganiadau yn parhau'n berthnasol yn ymarferol drwy wneud newidiadau i'r cynnwys gofynnol.

Adran 43

A.43(3): Rhaid i Weinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth mewn cysylltiad ag adolygiadau o dan a.43. Mae'r pŵer hwn yn adlewyrchu darpariaethau presennol yn adran 39 o Ddeddf Addysg Uwch 2004. Mae a.43(4) yn nodi'r hyn y gellid ei gynnwys mewn rheoliadau. Gallai fod angen diweddarau'r rheoliadau o bryd i'w gilydd yng ngoleuni adborth gan y sector a CCAUC o ran eu gweithredu.

Adran 49

A.49(4): Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch llunio'r datganiad mewn cysylltiad â swyddogaethau ymyrryd CCAUC (gan gynnwys o ran ffurf a chynnwys y datganiad); ei gyhoeddi; yr ymgynghoriad sydd i'w gynnal mewn perthynas â'r datganiad mewn cysylltiad â swyddogaethau ymyrryd. Darpariaethau gweithdrefnol a thechnegol yw'r rhain. Er eu bod yn berthnasol i CCAUC a'r sector addysg uwch maent fel arall o ddiddordeb cyfyngedig. Y bwriad yw darparu'r prif elfennau y mae rhaid i CCAUC fynd i'r afael â hwy wrth lunio'r datganiad er y gallai Gweinidogion Cymru wneud hyn, mewn egwyddor, drwy ddyroddi canllawiau i CCAUC yn hytrach na thrwy reoliadau. Mater i CCAUC fydd llenwi'r manylion gweithredol ar ôl ymgynghori a thrafod â sefydliadau rheoleiddiedig a rhanddeiliaid eraill. Gall hefyd fod yn wir bod gofynion yn newid dros amser ac y bydd gan Weinidogion Cymru y pŵer i ymateb i'r newidiadau hynny. Ar y sail hon rydym yn credu ei bod yn briodol defnyddio "caiff" yn hytrach na "rhaid" er mwyn rhoi'r hyblygrwydd sy'n ofynnol i Weinidogion Cymru er mwyn rhoi effaith briodol ac ystyrion i'r adran hon.

Adran 54

A.54(1): Mae'r adran yn mabwysiadu'r ffurf "rhagnodedig" / "a ragnodir". Gellir eithrio ffioedd penodol o'r diffiniad o "ffioedd" yn adran 54(1). Bydd y system yn gweithredu heb i reoliadau gael eu gwneud. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn golygu diogelu'r system at y dyfodol rhag ofn y bydd angen eithrio mathau eraill o ffioedd o'r diffiniad o ffioedd.

Adran 55

A.55(3): Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth gysylltiedig, atodol neu ganlyniadol sy'n briodol yn eu barn hwy o ganlyniad i ddarpariaeth yn y Bil, neu er mwyn rhoi effaith lawn i ddarpariaeth yn y Bil. Efallai na fydd angen unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, atodol neu ganlyniadol felly rhaid i hyn aros fel "caiff".

Adran 56

A.56(2): Daw'r rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil i rym ar ddiwrnod y caiff Gweinidogion Cymru ei bennu drwy orchymyn. Rhaid bod cychwyn y darpariaethau yn aros yn ôl disgrisiwn Gweinidogion Cymru fel y gallant ymateb i unrhyw faterion nad oedd modd eu rhag-weld a all godi, a hefyd er mwyn sicrhau bod y system yn cael ei chyflwyno mewn modd amserol a chydgysylltiedig, gan alluogi'r system newydd i gyflawni'r canlyniadau gorau i'r sector, myfyrwyr a CCAUC. Ar y sail hon mae "rhaid" yn amhriodol ac yn dileu'r hyblygrwydd angenrheidiol hwn a'r ymatebolrwydd sydd ei angen i roi effaith briodol i'r ddeddfwriaeth.

Yr Atodlen, paragraff 28(e): Dim cyfeiriad at unrhyw ffurf ar "caniatáu" / "cael", na "rhaid". Gall rheoliadau bennu unrhyw ddeddfiad arall y mae cynllun o dan Ddeddf 2004 i'w drin ar ei gyfer fel pe bai'n gynllun sydd wedi ei gymeradwyo o dan y Bil. Efallai na fydd angen y rheoliadau hynny yn ymarferol, ond mae pŵer o'r fath yn darparu ar gyfer y dyfodol i raddau drwy alluogi darpariaethau ychwanegol i gael eu hychwanegu at y rheini sydd eisoes wedi eu rhestru ym mharagraff 28 os bydd angen, felly byddai "rhaid" yn amhriodol yma.

Yr Atodlen, paragraff 30(1): Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch cymhwyso darpariaeth a restrir ym mharagraff 28(a) – (d) i gynllun o dan Ddeddf 2004. Eto mae hwn yn ddull diogelu er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i ddelio ag unrhyw amgylchiadau nad oedd modd eu rhag-weld a all godi ar ôl y Cydsyniad Brenhinol ac effeithio ar y ffordd y mae cynlluniau o dan Ddeddf 2004 i'w trin fel pe baent yn gynlluniau ffioedd a mynediad. Gallai'r system weithredu heb y rheoliadau hyn felly byddai "rhaid" yn amhriodol.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon